

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2021–22

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2021–22

### Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

### Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026* (2021); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45324, ISBN digidol 978-1-80364-861-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **2** |
| **Cyd-destun – Cymraeg 2050** | **4** |
| **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | **5** |
| **Thema 2: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg** | **37** |
| **Thema 3: Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun** | **51** |
| **Casgliad** | **72** |

# Rhagair y Gweinidog

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf i ni ei gyhoeddi ar ein strategaeth iaith, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r adroddiad yn cyfeirio'n ôl at flwyddyn ariannol 2021-22 – blwyddyn lle bu'r Llywodraeth yn gosod ei gweledigaeth ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. I gyd-fynd â hyn, cafodd sawl dogfen strategol allweddol eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- *Rhaglen Lywodraethu'r* Llywodraeth hon. (Mehefin 2021)
- Ail *Raglen Waith Cymraeg 2050* ar gyfer tymor y Senedd hon sef 2021-26. (Gorffennaf 2021)
- *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru. (Tachwedd 2021)

Mae'r adroddiad hwn, felly, yn edrych yn ôl ar ein cynnydd yn ystod y flwyddyn wrth weithredu *Cymraeg 2050* yng nghyd-destun ein Llywodraeth newydd, ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer ein hiaith, ein cytundeb â Phlaid Cymru, a'n hymrwymiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi'n bersonol oedd digwyddiad ar Ynys Môn ym mis Chwefror, lle bues i'n trafod fy ngweledigaeth ar gyfer y Gymraeg i nodi trigain mlynedd ers i Saunders Lewis draddodi *Tynged yr Iaith* ym 1962.

Roedd yn gyfle i bwysleisio bod y Gymraeg, a'r cyfrifoldeb dros weithredu er mwyn ei gwarchod, yn perthyn i ni gyd. Mae gan bawb eu rôl: pobl sy'n byw mewn cymunedau Cymraeg, pobl sy'n byw yn y cymunedau twf hynny lle mae potensial i'r iaith dyfu, ein siaradwyr newydd, y rhai sy'n ailgydio yn yr iaith a'r rheiny sy'n meddwl dechrau dysgu o'r newydd. Mae gofyn i fwy o sefydliadau ac arweinwyr cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb am yr iaith hefyd. A byddwn ni fel Llywodraeth gyfan yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yng ngwaith pob tîm ac adran ar draws y sefydliad, bob tro. Ochr yn ochr â hyn, rydw i am i bob un ohonom ni holi: beth mwy allaf i ei wneud o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau ffyniant yr iaith? Fe wyddon ni bod sefyllfa'r Gymraeg yn wahanol iawn o le i le, ond rydw am i ni gydnabod bod gyda ni gyfrifoldeb gyda'n gilydd i'w gwarchod a'i chefnogi ym mhob rhan o Gymru.

Wrth gwrs, mae'r byd o'n cwmpas yn parhau i newid yn sgil y pandemig, gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r argyfwng costau byw. Mae'r rhain oll yn dod â heriau a chyfleoedd i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ac, yn bwysicach fyth, sy'n ei defnyddio o ddydd i ddydd.

Mae'r pandemig, er enghraifft, wedi parhau i effeithio ar rai o'n trefniadau arferol o ran casglu a chyhoeddi peth data eto eleni. Serch hynny, rydym wedi parhau gyda'n bwriad i gyhoeddi'r adroddiad hwn mor fuan ag sy'n bosibl wedi diwedd y flwyddyn adrodd, er mwyn i'r wybodaeth fod yn gyfredol. Mae hyn yn golygu nad yw pob set data ar gyfer y flwyddyn adrodd ar gael ar hyn o bryd. Byddant yn cael eu cyhoeddi maes o law, a byddwn yn craffu ymhellach arnynt bryd hynny ac yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yn fy araith *Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd* ar Ynys Môn, fe fues i'n sôn am bwysigrwydd cydweithio a chefnogi ein gilydd. Felly mae'r adroddiad hwn yn gyfle delfrydol i mi ddiolch i'n holl bartneriaid am eu gwaith di-flino gydol y flwyddyn. Maent wedi cydweithio'n barod, yn broffesiynol, yn ddiwyd ac yn llawn creadigrwydd er mwyn ein cefnogi i wireddu *Cymraeg 2050*.

Bues i'n trafod y Gymraeg hefyd gydag arweinwyr o'r tu allan i Gymru, a hynny wrth gadeirio cyfarfod gweinidogol o grŵp Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, gan ganolbwyntio ar faes ieithoedd a'r blynyddoedd cynnar. Roedd y cyfarfod hwn yn rhagarweiniad i eitem ar agenda Uwch-gynhadledd y Cyngor a gafodd ei gynnal rai dyddiau'n ddiweddarach gydag arweinwyr yr aelod-wladwriaethau yn Sain Ffagan. Roedd hi'n braf cael cyfle i drafod ein hieithoedd ar y lefel uchaf, mynd ati i ehangu'n gorwelion ac achub ar y cyfle i glywed a dysgu gan eraill.

Buon ni hefyd yn parhau â'n gwaith polisi strategol yn y Llywodraeth drwy ymgynghori ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a chyhoeddi ein Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, a thrwy wneud gwaith paratoi dwys ar gyfer y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd. At hynny, cafodd gwersi Cymraeg am ddim eu cyflwyno i rai dan 25 oed ac i'r gweithlu addysg, a buddsoddwyd o'r newydd yn y maes trochi hwyr.

Bydd adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf yn siŵr o drafod ein hymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Byddwn yn craffu ar y canlyniadau ac yn addasu ein targedau a'n ffyrdd o weithio yn ôl y gofyn.

Gyda hynny, rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio'n eang er mwyn creu dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg a chyfle i gymaint o bobl â phosib ym mhob rhan o'r wlad fwynhau ei dysgu a'i defnyddio'n fwy hyderus nag erioed o'r blaen.

**30 Medi 2022**

**Jeremy Miles AS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## Cyd-destun – Cymraeg 2050

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw ein strategaeth iaith Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i o leiaf 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y strategaeth iaith ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2021-22 sef blwyddyn gyntaf y llywodraeth hon, ac yn cynnwys manylion ar ein cynnydd o dan dair thema strategaeth *Cymraeg 2050*:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwynwyd ail Raglen Waith 5 mlynedd *Cymraeg 2050* (ar gyfer 2021-26) ar ddechrau'r llywodraeth hon ac mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar flwyddyn gyntaf y gweithredu hwnnw. Bu gweithredu hefyd yn unol ag ymrwymiadau Rhaglen Lywodraeth newydd y llywodraeth hon a'r *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru.

# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg


## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym yn defnyddio'r cyfrifiad er mwyn monitro ein cynnydd tuag at y miliwn. Cafodd Cyfrifiad 2021 ei gynnal ym mis Mawrth 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae disgwyl i'r ONS gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 ym maes y Gymraeg cyn diwedd 2022. Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi, byddwn yn eu dadansoddi'n fanwl ac yn diweddaru'r taflwybr i gyrraedd y miliwn a gyhoeddwyd fel rhan o strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn adolygu ein blaenoriaethau yn ôl y galw cyn gynted ag sy'n bosibl.

Roedd Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 562,000 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg, neu 19.0% o'r boblogaeth.

Y cyfrifiad poblogaeth yw'r ffynhonnell allweddol sy'n cael ei ddefnyddio i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ond gan fod Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu canlyniadau bob chwarter, mae'n ffynhonnell ddefnyddiol er mwyn edrych ar dueddiadau yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

**Siart 1: Nifer y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, o 2001 i fis Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a chyfrifiad poblogaeth

A: Newidwyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn yn unig

Yn ôl yr [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](), felly, roedd 883,300 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth

2021, neu 29.1% o'r boblogaeth. Mae disgwyl i ddata am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 gael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2022.

Mae ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r cyfrifiad, ond maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu dueddiadau yn nifer y siaradwyr. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng y cyfrifiad ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gael mewn bwletin ystadegol. Mae'r bwletin yn cynnig rhesymau posibl am y gwahaniaethau hyn, gan gynnwys gwahaniaethau yn y dull y mae'r cyfrifiad a'r arolwg yn cael eu cynnal.

Er bod ffigurau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, gallwn weld fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn ers mis Mawrth 2010, wedi iddynt ostwng yn raddol o 2001 i 2007. Fe wnaeth nifer y bobl sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ostwng rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2020, cyn cynyddu eto wedi hynny.

Fodd bynnag, rhaid trin y cynnydd hwn â gofal gan fod COVID-19 wedi golygu bod rhaid newid y ffordd yr oedd yr arolwg yn cael ei gynnal o ganol mis Mawrth 2020 ymlaen.

Yn dilyn cyngor y Llywodraeth ynghylch y pandemig, cafodd Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, (yn ogystal â phob astudiaeth wyneb yn wyneb arall sy'n cael eu cynnal gan yr ONS am bobl, teuluoedd ac aelwydydd), ei atal.

O ganol mis Mawrth 2020, cynhaliwyd yr Arolwg Blynyddol dros y ffôn yn unig. Rhaid cydnabod y gall newid y ffordd y caiff yr arolwg ei gynnal effeithio ar y canlyniadau. Drwy gymharu'r rhai a gwblhaodd yr arolwg dros y ffôn yn erbyn y rhai a gwblhaodd yr arolwg wyneb yn wyneb yn y cyfnod cyn mis Mawrth 2020, roedd yn ymddangos bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wrth ateb yr arolwg dros y ffôn.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl dweud os yw unrhyw newidiadau diweddar yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg o ganlyniad i'r newid yn ffordd y mae'r arolwg yn cael ei gynnal neu newidiadau gwirioneddol yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg. Felly, dylid dehongli'r canlyniadau â gofal.

## 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

### Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i "*greu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg*". Mae'n nodi awydd y Llywodraeth i "*weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn...*"

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio ar ein Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd (Polisi Trosglwyddo) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r polisi yn canolbwyntio ar:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Rydym wedi bod yn edrych ar amrywiaeth eang o ymyraethau gyda theuluoedd mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud â'r Gymraeg ledled y byd er enghraifft y maes iechyd, addysg a diogelwch. Ein bwriad yw casglu'r enghreifftiau gorau i'w haddasu'n ymyraethau ymarferol yn y rhaglen hirdymor hon.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda chwmni allanol ac arbenigwyr cynllunio ieithyddol. Cynhaliwyd gweithdai lle buom yn gwrando ar brofiadau ymwelwyr iechyd, bydwragedd, swyddogion Dechrau'n Deg, swyddogion llyfrgelloedd, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a swyddogion polisi teuluoedd Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn y dadansoddiad hwn yn sail i brosiect newydd sy'n creu ymyraethau yn cynnwys technegau gwyddor ymddygiad. Canlyniad y gwaith fydd cynyddu trosglwyddiad iaith ymysg y teuluoedd hynny a fydd yn rhan o'r prosiect.

Yn ogystal â'r Polisi Trosglwyddo, mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud yn y maes yng Nghymru, ac mae'r polisi'n adeiladu ar waith Twf a Cymraeg i Blant.

Rydym yn ariannu cynllun cenedlaethol Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfrwng cyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, mae rhwydwaith o swyddogion yn parhau i gefnogi teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant.

Mae Cymraeg i Blant yn cael ei ystyried yn gam pwysig ar y daith tuag at addysg Gymraeg gyda nifer o'r awdurdodau lleol yn cydnabod cyfraniad y rhaglen yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Yn dilyn llacio cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil y pandemig, mae'r rhaglen wedi ailgychwyn cyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb i gefnogi rhieni a'u plant. Er hyn, mae'r cymorth rhithiol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r cymorth estynedig a gynigir drwy Cymraeg i Blant. Yn ystod 2021-22, cyflwynwyd 874 o sesiynau rhithiol i bron 4,700 o rieni a 4,500 o blant a chyflwynwyd 2,188 o sesiynau wyneb yn wyneb i bron 13,400 o rieni a 14,000 o blant.

Gan fod y polisi'n sail i raglen waith hirdymor, byddwn yn craffu ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021 ac yn addasu ein cynlluniau yn ôl y galw yn unol â hynny.

**Data trosglwyddo iaith**

Yn ystod 2021-22, cafodd canlyniadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 eu cyhoeddi. Dyma'r prif bwyntiau o ran y Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg:

- Roedd bron i dri chwarter o siaradwyr Cymraeg yn dod o gartrefi gydag o leiaf un rhiant a oedd ag o leiaf rhywfaint o allu yn y Gymraeg.
- Roedd 28% o siaradwyr Cymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg.
- Roedd tri chwarter y rheiny sy'n dod o gartrefi heb yr un rhiant rhugl wedi dechrau dysgu siarad yr iaith yn yr ysgol.
- Roedd siaradwyr Cymraeg ddwywaith yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob dydd os oedd ganddynt o leiaf un rhiant rhugl yn y Gymraeg, o gymharu â'r siaradwyr Cymraeg hynny nad oedd ganddynt riant rhugl.
- Derbyniodd bron i hanner y siaradwyr Cymraeg, waeth beth fo'u gallu, addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, o gymharu â thraean a dderbyniodd addysg uwchradd yn y Gymraeg.
- O'r holl siaradwyr Cymraeg a dderbyniodd addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, roedd 92% yn disgrifio eu hunain yn rhugl.

## 2. Y blynyddoedd cynnar

Mae ein *Rhaglen Lywodraethu* yn ymrwymo i "*ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg*."

Mae'r blynyddoedd cynnar felly'n parhau'n un o'n meysydd blaenoriaeth wrth i ni weithio i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o greu 150 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2027-28. Fel rhan o'r targed hwn, sefydlwyd 43 grŵp cyfrwng Cymraeg newydd yn ystod y tair blynedd cyntaf (sef 2018-21), a oedd y tu hwnt i'r targed o 40 a osodwyd. Yn ystod 2021-22, sefydlwyd 12 grŵp arall – mae hyn yn rhan o darged ehangach i agor 60 darpariaeth yn ystod tymor y Senedd bresennol.

Yn ogystal â'r model traddodiadol o Gylch Meithrin, mae Cylchoedd wedi'u sefydlu mewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg a Chylchoedd wedi'u sefydlu lle roedd darpariaeth *playgroup* cyfrwng Saesneg hefyd yn bodoli. Mae natur rhai o'r grwpiau newydd a sefydlwyd yn galluogi sesiynau Cylch Meithrin i gael eu cynnig

mewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg, gyda’r staff yn y lleoliadau hynny’n cael eu cefnogi drwy raglen hyfforddi trochi iaith Mudiad Meithrin, ‘Croesi’r Bont’.

Ar 16 Mawrth 2022, cyhoeddwyd y byddai'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei hehangu i 2,500 yn rhagor o blant o dan bedair oed fel rhan o'r cam cyntaf yn y gwaith o ehangu gofal plant o ansawdd uchel i bob plentyn dyflwydd oed yng Nghymru, yn unol ag ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu*. Ein bwriad yw cynnwys diweddariad ar y maes hwn yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Mae Cwlwm (consortiwm o bum sefydliad ym meysydd gofal plant a chwarae) yn parhau i gynnig cefnogaeth i’w aelodau er mwyn datblygu capasiti cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector gofal plant. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ei aelodau i ehangu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn hunangynhaliol.

Er mwyn hwyluso’r dilyniant rhwng Cylchoedd Meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg, drwy’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), mae Mudiad Meithrin wedi parhau i gydweithio gydag awdurdodau a darparwyr lleol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar. Casglwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan Mudiad Meithrin am nifer y plant sy’n mynychu Cylchoedd Meithrin a’u taith ymlaen i addysg statudol, a’i rhannu gydag awdurdodau lleol er mwyn eu cefnogi gyda’u prosesau cynllunio.

Mae nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin, a chanran y rheiny sydd wedyn yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, wedi gweld cynnydd yn gyffredinol ers 2005. Bu gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn mynychu Cylchoedd Meithrin rhwng 2018-19 a 2019-20 (Siart 2) ond mae’r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2020-21 yn dangos cynnydd. Gwelwyd yr un patrwm ar gyfer y ganran a oedd yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad o 89.8% i 88.1% rhwng 2018-19 a 2019-20, ond bu cynnydd i 89.3% yn 2020-21.

Bydd data 2021-22 ar gael cyn diwedd 2022 a’r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Rydym yn tybio mai effaith y pandemig sy’n gyfrifol am y gostyngiad a welwyd yn ystod 2019-20, am i nifer o Gylchoedd Meithrin fod ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf rhwng mis Mawrth 2020 a diwedd tymor yr haf. Mae hyn yn golygu bod nifer o blant wedi methu â chychwyn yn y Cylch yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn hefyd wedi effeithio ar y gallu i olrhain nifer y plant a oedd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.


Er bod y Cylchoedd wedi gorfod cau oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae’n galonogol nodi fod pob un wedi ailagor ers hynny ac felly mae’r seilwaith yn gadarn er mwyn ailadeiladu dros y pum mlynedd nesaf.

Arweiniodd cyfyngiadau COVID-19 hefyd at Gylchoedd Ti a Fi yn methu cyfarfod ac felly’n gorfod cau. Gyda llacio’r cyfyngiadau, rhoddodd Mudiad Meithrin ffocws penodol ar ail-agor darpariaeth Ti a Fi i geisio cyrraedd lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig. I gefnogi'r Mudiad i ailagor cymaint o Gylchoedd Ti a Fi â phosibl mewn modd diogel, fe wnaethom ddarparu £50,000 o gyllid ychwanegol iddynt yn ystod 2021-22.

Yn y maes hwn, mae’n bwysig ein bod yn edrych ar y cyd-destun ehangach – mae nifer y plant yn y boblogaeth yn gyffredinol wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bydd data 2021/22 o ran nifer y plant sy’n mynychu Cylchoedd Meithrin yn dod ar gael cyn y Nadolig a’r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siart 2: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin**




Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

Mae’r gwaith o gefnogi darparwyr gofal plant i gryfhau ac ymestyn eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi parhau yn ystod 2021-22. Drwy ein gwaith gyda Mudiad Meithrin, rydym wedi:

- Cyrraedd y targed o sefydlu dros 50 grŵp meithrin newydd mewn ardaloedd o angen ledled Cymru yn ystod pedair blynedd cyntaf y rhaglen ymestyn darpariaeth, Sefydlu a Symud (SAS).
- Cynnig hyfforddiant i dros 2,300 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ‘Academi’.
- Parhau i gynnig prentisiaethau mewn gofal plant i unigolion drwy gynllun prentisiaethau Mudiad Meithrin ac Urdd Gobaith Cymru.
- Parhau i gefnogi rhieni a’u plant ifanc drwy raglen Cymraeg i Blant er gwaethaf effeithiau’r pandemig.
- Cryfhau’r cyswllt rhwng y Mudiad ac awdurdodau lleol yn sgil gofynion newydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Parhau i gydweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfran y plant sy’n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ymestyn cyrhaeddiad rhaglen hyfforddiant ‘Croesi’r Bont’, sy’n ffocysu ar gaffael iaith a throchi ac arfogi ymarferwyr â sgiliau arbenigol i’w defnyddio gyda phlant o gartrefi di-Gymraeg.

Drwy gydweithio gyda chonsortiwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith, a hynny drwy raglen ‘Camau’ y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Drwy hyn, cafodd dros 650 o ymarferwyr hyfforddiant wedi ei deilwra’n arbennig i anghenion y sector gofal plant a chwarae.

Wrth edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, mae'n rhaid i ni edrych ar gyd-destun ehangach Cynnig Gofal Plant Cymru. Cynllun yw hwn sy'n darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, i rieni cymwys. Mae'r cynnig yn helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu eu horiau, manteisio ar gyfleoedd hyfforddi i ddatblygu eu sgiliau, newid eu gyrfaoedd, sefydlu eu busnesau eu hunain, neu ddychwelyd i fyd addysg.

Mae'r cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 wedi bod yn un heriol i'r sector gofal plant ehangach yng Nghymru, wrth iddo barhau i ddod dros effeithiau COVID-19. Er bod darpariaeth Cynnig Gofal Plant Cymru wedi ailddechrau o fis Medi 2020, parhaodd y nifer a oedd yn manteisio arni bob mis yn anghyson am weddill blwyddyn ariannol 2020-21. Ond gwellodd hyn yn 2021-22, pan welwyd cyfartaledd o 50% o deuluoedd cymwys ar draws y flwyddyn am y tro cyntaf ers cyflwyno'r Cynnig yn llawn yn 2019.

Erbyn Mehefin 2021, roedd 16,330 o blant yn manteisio ar y Cynnig, a 3,707 (23%) yn gwneud hynny mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Gostyngodd y nifer hwn wrth i ni fynd i mewn i dymor yr hydref, fel sy'n digwydd bob blwyddyn, cyn codi i 15,642 erbyn mis Mawrth 2022. O'r rheini, roedd tua 3,935 (25%) yn cael darpariaeth mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwerthusiad diweddaraf o'r Cynnig Gofal Plant, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Medi 2020 i fis Awst 2021, ar gael yma ac mae disgwyl i'r gwerthusiad nesaf gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022.

Wrth edrych ar draws y sector yn fwy cyffredinol, ar ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd 3,220 o leoliadau gofal plant gweithredol wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, 477 (15%) ohonynt yn ystyried eu hunain yn rhai cyfrwng Cymraeg a 322 (10%) yn rhai dwyieithog. Mae hynny'n cymharu â 3,499 o leoliadau cofrestredig ym mis Mawrth 2021, 495 (14%) ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai cyfrwng Cymraeg a 349 (10%) yn ddwyieithog. Mae’r sector yn nodi bod recriwtio a chadw staff yn her sylweddol, gan gynnwys o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae’r gwaith o ddod i ddeall yr heriau hyn yn well a’r camau y mae angen eu cymryd i unioni’r sefyllfa yn parhau. Bwriedir rhoi cefnogaeth ychwanegol i’r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Wrth edrych tua’r dyfodol, mae fersiwn ddiweddaraf *y Rhaglen Lywodraethu* a’r *Cytundeb Cydweithio* yn cynnwys nifer o ymrwymiadau o ran darpariaeth gofal plant a’r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys:

- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith.

- Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r ymrwymiadau hyn ar y gweill, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Cwlwm a'r sector gofal plant ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ehangach i'r sector gofal plant drwy gydol 2021-22, a £3.7m ychwanegol mewn taliadau cynaliadwyedd drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Rydym wedi parhau i ariannu Cwlwm, y consortiwm gofal plant sy'n cynnwys Mudiad Meithrin, ac fe wnaethom fuddsoddi yn narpariaeth ystod eang o weithgareddau Cymraeg a dwyieithog i blant a phobl ifanc drwy Haf o Hwyl 2021 a gostiodd £5m, a Gaeaf Llawn Lles a gostiodd £20m a gynhaliwyd rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022. Roedd y ddwy fenter yn darparu gweithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed gan Mudiad Meithrin, yr Urdd a'r mentrau iaith.

## 3. Addysg statudol

Mae'r maes addysg yn ganolog i'n hymdrechion i gyrraedd y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod targedau ar gyfer y maes addysg ac mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn manylu ymhellach ar ein targedau.

Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym wedi ymrwymo i "*Cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a fydd, ynghyd â gwaith anneddfwriaethol mwy uniongyrchol, yn cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; yn pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn sefydlu un continwwm dysgu Cymraeg a'i weithredu; yn galluogi ysgolion presennol i symud i gategori Cymraeg uwch ac yn ysgogi cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg*":

Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y targedau, y dangosyddion a'r ymrwymiadau hyn yn yr adran hon.

### Bil Addysg Gymraeg

Mae'r gwaith o ddatblygu Bil yn y cyfnod cynnar. Yn ystod y flwyddyn adrodd, buom yn ystyried amcanion a meysydd polisi a allai fod yn rhan o'r Bil. Bydd y gwaith o ddatblygu opsiynau polisi i gyflawni'r amcanion yn parhau dros y misoedd nesaf.

### Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Pwrpas Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yw sefydlu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y Ddeddf, mae'r Gymraeg yn faes cwricwlwm gorfodol i blant a phobl ifanc 3-16 oed. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Cynnydd sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid adlewyrchu cynnydd mewn cwricwlwm mabwysiedig.

Fis Ionawr 2021, amlinellodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Fframwaith drafft. Cafodd y Fframwaith ei fireinio ymhellach wedi hynny gan grŵp o ymarferwyr mewn ymateb i'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad. Bydd y Fframwaith terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2022.

Fel Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd y cwricwlwm, bydd Fframwaith y Gymraeg ar gyfer ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg ar gael fel canllawiau anstatudol. Bydd hyn yn gymorth ychwanegol i ymarferwyr gyflwyno'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, heb amharu ar greadigrwydd athrawon nac ar eu gallu i wneud penderfyniadau am ddysgu ac addysgu. Fframwaith yw hwn i gefnogi ysgolion wrth baratoi, cynllunio ac adolygu'r Gymraeg yn eu cwricwlwm. Mae'n amlygu hefyd lle gellir dod o hyd i ddysgu proffesiynol a chefnogaeth. Rydym hefyd yn blaenoriaethu comisiynu adnoddau newydd, yn unol â'r Canllaw ar adnoddau a deunyddiau ategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ei benderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg y dyfodol ym mis Mawrth 2022. Bydd Cymwysterau Cymru yn:

- Cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu TGAU integredig newydd yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Dod â TGAU Cymraeg ail iaith i ben ac yn creu TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- Creu cymhwyster ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg.
- Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu gofynion sylfaenol ar gyfer y tri chymhwyster hyn.

Er mwyn sicrhau bod cyfres gymwysterau Cymru nid yn unig yn addas i ddiwallu anghenion sy'n esblygu ymhlith dysgwyr a chyflogwyr, ond hefyd i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru yn briodol, mae Cymwysterau Cymru yn mynd ati i adolygu a diwygio'r Cymwysterau Cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 oed. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru wrth iddyn nhw fwrw ymlaen â cham 3 y rhaglen ddiwygio hon.

Mae cam 3 y gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a'r amcan yw i Gymwysterau Cymru fynd ati, ynghyd ag ystod eang o randdeiliaid, i lunio cyfres o gynigion lefel uchel ar gyfer cymwysterau.

Dechreuodd cam 3 ddiwedd 2021, ac mae gwaith manwl ar y gweill i fireinio cynigion drafft yn barod ar gyfer ymgynghoriad y disgwylir ei lansio ym mis Hydref 2022. Bwriad y broses ymgynghori honno yw i Gymwysterau Cymru rannu a

phrofi’r cynigion drafft gyda rhanddeiliaid. Un o’r elfennau allweddol yw sicrhau bod y cymwysterau yn adlewyrchu’n briodol a’u bod yn gydnaws â’r Cwricwlwm i Gymru a dogfennau ehangach sy’n llywio polisi Llywodraeth Cymru, megis *Cymraeg 2050.*

**Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd**

Cyhoeddwyd drafft o’r Cwricwlwm i Gymru ym mis Ebrill 2019 er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno adborth. Yn sgil yr adborth a ddaeth i law, mireiniwyd y cwricwlwm rhwng Medi a Rhagfyr 2019, a chyhoeddwyd Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2020.

Mae’r Gymraeg bellach yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm newydd. Bydd y Gymraeg yn parhau’n bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gan gynnig hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwwm dysgu. Yn achos y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at fod yn ddysgwr sy’n defnyddio’r iaith yn hyderus ac yn llwyddiannus.

Yn ystod 2022, mae’r Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol ar y Cwricwlwm i Gymru wedi canolbwyntio ar baratoi at y cwricwlwm, dylunio a datblygu’r cwricwlwm. Roedd y sgyrsiau hyn yn cynnwys ymarferwyr o bob rhan o Gymru, ac yn ystyried y gefnogaeth a’r adnoddau sydd eu hangen i wireddu’r cwricwlwm. Wrth inni symud ymlaen gyda’r Cwricwlwm i Gymru, byddwn yn trafod cefnogaeth ar lefel Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd hyn yn cynnwys sgyrsiau ar y Gymraeg yn y cwricwlwm fel y gellir rhannu arbenigedd a dysgu a nodi’r blaenoriaethau sydd eu hangen i gefnogi’r proffesiwn.

Ymgynghorodd Cymwysterau Cymru, fel rhan o Cymwys ar gyfer y Dyfodol, ar ystod o gynigion ar gyfer cymwysterau iaith Gymraeg newydd i gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y bydd newidiadau’n cael eu gwneud i gymwysterau Cymraeg er mwyn helpu mwy o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chymwysterau Cymru i ddatblygu cymwysterau newydd ar draws y cwricwlwm. Bydd rhagor o ymgynghori ar y cymwysterau hyn wrth i’r gwaith fynd rhagddo.

**Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 i rym ar 1 Ionawr 2020, ynghyd â chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y degawd nesaf. Yn sgil hyn, mae awdurdodau lleol wedi paratoi cynlluniau newydd, mwy uchelgeisiol sy’n darparu cyfleoedd i fwy o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, fanteisio ar gyfleoedd addysg a dysgu cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cefnogi'r awdurdodau lleol i baratoi eu CSCA newydd (ar gyfer 2022-32), fe wnaethom gynnal Rhaglen Cefnogi CSCA rhithiol ar eu cyfer ac aelodau lleol y Fforymau Cymraeg Mewn Addysg. Roedd y rhaglen yn cynnwys naw sesiwn rithiol rhwng mis Mai a Rhagfyr 2021 ac yn gyfle i rannu arferion gorau, profiadau ac arbenigedd yn ogystal â chlywed am ddatblygiadau perthnasol y Llywodraeth. Manteisiodd rhyw 270 o fynychwyr ar y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori yn 2021, cyflwynodd pob awdurdod lleol CSCA drafft i Weinidogion Cymru eu hystyried a'u hasesu ddiwedd mis Ionawr 2022. Derbyniodd pob awdurdod lleol adborth ar eu Cynlluniau a buom yn cydweithio â nhw i'w cefnogi i'w diwygio. Erbyn hyn, mae pob Cynllun wedi cael ei gymeradwyo ac yn weithredol.

Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'w dargedau deng mlynedd uchelgeisiol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynlluniau'n cynnwys pwyslais clir ar gynyddu'r nifer o leoliadau ysgol cynradd ar draws Cymru gydag ymrwymiadau i sefydlu 23 ysgol gynradd Gymraeg newydd ac ehangu 25 ysgol gynradd Gymraeg dros y degawd nesaf.

Rydym am i 26% o ddysgwyr Blwyddyn 1 gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026, gyda hynny'n codi i 30% erbyn 2031. Mae'r targedau hyn yn cyfateb i gerrig milltir strategaeth *Cymraeg 2050*.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi pwyslais ar gryfhau partneriaethau sy'n greiddiol i weithredu'r CSCA. Mae'n glir o'r Cynlluniau bod hyn ar waith gyda llawer o'r awdurdodau lleol wedi sefydlu is-grwpiau gyda phartneriaid a bydd llwyddiant y Cynlluniau'n ddibynnol ar amryw o ffactorau gan gynnwys cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Dim ond y cam cyntaf yw cyhoeddi'r CSCA – byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn eu cefnogi i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ledled Cymru.

Mae'r CSCA hefyd yn cyffwrdd maes recriwtio athrawon ac addysg uwch ar sail cyngor ac argymhellion y Bwrdd Cynghori CSCA. Ceir rhagor o wybodaeth ar y Gweithlu Addysg yma.

Nodwyd hefyd yr angen i gynllunio'n fwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cydweithio gydag adrannau perthnasol yn y Llywodraeth yn mynd rhagddo, a chamau ar waith i ddenu athrawon, gwella'u sgiliau a'u cefnogi, ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau. (Gweler Siart_10 a manylion llawn y gwaith sy'n digwydd yn y maes hwn isod).

**Categoreiddio ysgolion**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol drafft diwygiedig ar gategorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod 2021. Cyhoeddwyd y canllawiau terfynol ar 16 Rhagfyr 2021.

Mae'r meysydd newid allweddol yn cynnwys lleihau nifer y categorïau sy'n diffinio'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgol i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd, gyda phob un yn dilyn yr un patrwm: cyfrwng Saesneg (Categori 1); Dwy iaith (Categori 2) a Chymraeg (Categori 3 a 3P). Bydd canran y ddarpariaeth Gymraeg yn awr hefyd yn cael ei chyfrifo ar sail yr amser ysgol a gymerir i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg sy'n cynnwys amser cwricwlaidd yn ogystal ag amser allgyrsiol. Un o egwyddorion craidd y trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg, yn gwricwlaidd ac hefyd o ran eu gweithgaredd allgyrsiol, yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol.

Mae'r polisi categoreiddio yn fecanwaith allweddol i nifer o awdurdodau lleol gyrraedd eu targed o fewn y CSCA. Mae wyth awdurdod lleol wedi cynnwys bwriad i symud ysgolion ar hyd y continwwm o fewn eu CSCA deng mlynedd, gydag eraill yn ymrwymo i fabwysiadu'r trefniadau newydd wrth ehangu darpariaeth addysg cyfrwng mewn ardaloedd newydd o fewn y sir.

**Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid**

Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026* a'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cynnwys ein hymrwymiad i ehangu'r Rhaglen Drochi hwyr i sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei angen arno a ble bynnag y mae ar ei daith ddysgu.

Ar 14 Medi 2021, cyhoeddwyd buddsoddiad o £2.2m ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 i gefnogi dysgwyr Cymraeg sy'n ymgymryd â throchi hwyr mewn ysgolion ac i gefnogi dilyniant dysgwyr yn y Gymraeg yng ngoleuni COVID-19. Cafodd pob awdurdod lleol gyfle i wneud cais am hyd at £100,000 o gyllid ar gyfer gwariant cyn diwedd Mawrth 2022. Derbyniwyd ceisiadau cryf gan bob awdurdod lleol a chymeradwywyd pob cais er mwyn cefnogi buddsoddiadau a oedd yn hwyluso datblygiad neu dwf darpariaeth trochi cyfrwng Cymraeg.

Dyrannwyd cyllid i wyth awdurdod lleol greu eu canolfannau trochi hwyr cyntaf yn y Gymraeg sef Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys, a Bro Morgannwg. Cafodd pob awdurdod lleol gyllid i ehangu rhaglenni trochi hwyr a oedd eisoes yn bodoli, ac fel hwb ychwanegol i drochi hwyr mewn ysgolion Cymraeg yn dilyn y pandemig.

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y cyllid hwn, a wnaeth alluogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu eu darpariaeth trochi hwyr yn y Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i gyfanswm o £6.6m o gyllid refeniw ychwanegol dros 3 blynedd (£2.2m wedi'i gadarnhau ar gyfer 2022-23 ac yn ddangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25). Cafodd pob awdurdod lleol gyfle i wneud cais am arian drwy broses ymgeisio gystadleuol ac mae pob prosiect wedi'i gymeradwyo yn barod i'w weithredu o fis Medi 2022 ymlaen. Mae hyn yn gyfle gwych i bob awdurdod lleol a'u partneriaid ehangu eu darpariaethau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion a'u canolfannau trochi.

## Cyllid cyfalaf

Mae darparu cyllid cyfalaf yn ffordd effeithiol o helpu i greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Gwneir hynny drwy gynllunio uchelgeisiol a phennu targedau cyraeddadwy, a chan wneud y mwyaf hefyd o'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Bydd y prosiectau cyfalaf y byddwn yn eu hariannu yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru. Bydd y prosiectau hyn hefyd yn hybu'r iaith Gymraeg yn lleol.

Sefydlwyd y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg cychwynnol yn 2018. Cafodd swm o £30 miliwn ei ddyrannu ar gyfer prosiectau cyfalaf er mwyn sbarduno'r twf yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg. Daeth cynigion gwerth mwy na £100m i law. Yn sgil cyllid ychwanegol gan y gronfa gyfalaf gofal plant, roedd modd i ni gefnogi ceisiadau a oedd ag elfen glir o ofal plant cyfrwng Cymraeg, gan greu cyfanswm cyllid o £46m. Yn ystod y cylch cyntaf, gwahoddwyd awdurdodau lleol i gynnwys ceisiadau ar gyfer prosiectau'n ymwneud â gofal plant, boed yn rhai annibynnol neu'n gysylltiedig â phrosiectau addysg statudol. Daeth 46 cais i law gan 20 awdurdod lleol.

Cymeradwywyd amrywiaeth o wahanol brosiectau ledled Cymru yn ystod y cylch cyntaf, er enghraifft:

- Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Sir Fynwy, Merthyr Tudful a Thorfaen (yn gysylltiedig ag ysgol uwchradd).
- Ehangu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg bresennol er mwyn ymdopi â'r galw, e.e. yn Wrecsam, Sir y Fflint, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili.
- Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi caffael iaith cynnar ac i ddenu dysgwyr pellach i'r sector cyfrwng Cymraeg, e.e. yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy.
- Canolfan Gymraeg arloesol yn Sir Ddinbych sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a chymorth i ddysgwyr Cymraeg ail iaith.
- Cefnogaeth i ganolfannau weithio gyda disgyblion sy'n symud i fyw i Wynedd a Sir Gâr.

Mae'r rhan fwyaf o'r 46 prosiect ar draws 20 awdurdod lleol wedi dechrau ers tro, ac mae'r wyth prosiect canlynol wedi'u cwblhau:

- Canolfan Iaith Gymraeg, Ysgol Maes y Gwendraeth (Caerfyrddin)
- Ysgol y Wern (Caerdydd)
- Canolfan Iaith Gymraeg – Ysgol Glan Clwyd (Sir Ddinbych)
- YGG Tyle'r Ynn (Castell-nedd Port Talbot)
- YGG Cwmllynfell (Castell-nedd Port Talbot)
- YGG Llantrisant (Rhondda Cynon Taf)
- Glan-llyn Isa (safle'r Urdd)
- Ysgol Bro Alun (Wrecsam)

Ar 11 Mawrth 2021, fe gyhoeddon ni £30 miliwn yn ychwanegol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Ail gylch buddsoddi o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yw hwn, i gefnogi prosiectau cyfalaf â'r nod penodol o gefnogi a hybu'r

defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Mae hyn yn ychwanegol i'r dyraniad a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yr arferid ei galw'n Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif.

O'r 51 cais a gyflwynwyd, lluniwyd rhestr o'r ceisiadau a argymhellir yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael. Mae 11 cais o naw ardal awdurdod lleol wedi cael eu blaenoriaethu, ac mae'r ceisiadau eraill sy'n bodloni'r meini prawf ond nad oedd modd eu cefnogi oherwydd cyfyngiadau ariannol wedi'u rhoi ar restr wrth gefn. Dyma'r 11 prosiect a flaenoriaethwyd i symud ymlaen i gam nesaf y broses achosion busnes:

- Ysgol Gymraeg Bro Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr)
- Estyniad i Ysgol y Creuddyn (Conwy)
- Cynyddu capasiti ysgolion (Gwynedd)
- Darpariaeth drochi ac ADY ym Mro Edern (Caerdydd)
- Canolfan Drochi newydd yn y Gymraeg a bloc ystafelloedd dosbarth newydd (Ceredigion)
- Ysgol gynradd Gymraeg newydd ym Mwcle neu Fynydd Isa (Sir y Fflint)
- Egin-ysgol ym Mhorthcawl (Pen-y-bont ar Ogwr)
- Canolfannau Iaith – cam 2 (Gwynedd)
- Canolfan Drochi Gymraeg – Ysgol y Strade (Sir Gaerfyrddin)
- Ysgol Caer Elen – cynyddu capasiti (Sir Benfro)
- Ysgol ID Hooson – cynyddu capasiti (Wrecsam)

Mae achosion busnes wedi dod i law o Gonwy (estyniad i Ysgol y Creuddyn) ac o Ben-y-bont ar Ogwr (Ysgol Gymraeg Bro Ogwr). Ers hynny, mae'r ddau brosiect wedi cael eu cymeradwyo ac wedi derbyn eu llythyrau dyfarnu grant yn ystod mis Awst 2022. Dechreuodd cylch cyllido grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg yn 2022-23, a daw i ben yn ystod 2025-26. Rydym yn disgwyl gweld gweddill y cynigion yn cael eu cyflwyno yn ystod y cylch cyllido hwn.

Yn ystod 2019, dyrannwyd arian cyfalaf i'r Urdd hefyd er mwyn adnewyddu ac uwchraddio'r gwersylloedd er mwyn gwella profiadau'r rheiny sy'n ymweld â'r canolfannau – mae hyn oll yn cyfrannu at ein targed i ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Erbyn hyn mae'r gwaith o adnewyddu, moderneiddio a datblygu gwersyll Glan-llyn a phrosiect Calon y Gwersyll, Llangrannog wedi'i gwblhau. Agorwyd Glan-llyn Isa (llety hunan-ddarpar cyntaf yr Urdd) yn ystod gwanwyn 2021 a chynhaliwyd 82 cwrs yno rhwng haf 2021 a haf 2022. Manteisiodd cymysgedd o blant cynradd, uwchradd, teuluoedd, colegau a chymunedau ar y ddarpariaeth hon.

Mae trydedd elfen y prosiect, sef datblygu canolfan hyfforddi dŵr Glan-llyn, bellach wedi derbyn caniatâd cynllunio a dechreuodd y gwaith hwn ym mis Chwefror 2022. Disgwylir y bydd y gwaith yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2023.

**Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amcanion allweddol *Cymraeg 2050*.


Yn wreiddiol, roeddem yn defnyddio asesiadau athrawon i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data ymhellach. Ond, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau ysgolion ar 20 Mawrth 2020 yn sgil COVID-19, cyhoeddwyd nad oedd disgwyl i sefydliadau gyflwyno unrhyw ddata a gasglwyd fel data statudol yn y ffordd arferol o dan yr amgylchiadau. Felly, canslwyd Casgliad Data Cenedlaethol ar gyfer 2020 oherwydd y pandemig.

Wrth gydnabod fod cau yr ysgolion yn amharu ar lif data blynyddol, yn yr adroddiad hwn felly, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cael braslun o'r sefyllfa yn absenoldeb y data arferol. Mae Siart 3 yn cynnwys y ddwy ffynhonnell er mwyn dangos cysondeb yn y data, ac i ddangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Mae data diweddaraf CYBLD (2022), a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst yn dangos cynnydd canrannol bychan o ran dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan godi o 23.4% yn 2020/21 i 23.9% yn 2021/22. Yn *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021-26*, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r ganran o ddysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg i 26% erbyn 2026.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd tebyg yng nghanran dysgwyr Blwyddyn 7 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o 19.8% yn 2020/21 i 20.1% yn 2021/22, sy'n cyfateb i oddeutu wyth dosbarth ychwanegol o 30 o ddysgwyr. Serch hynny, efallai ein bod yn gweld rhywfaint o effaith COVID-19 gan fod canran fechan o ostyngiad o ran dysgwyr oedran Dosbarth Derbyn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.8% yn 2020/21 i 23.3% yn 2021/22. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag nad yw'r data yn gyflawn ar gyfer dysgwyr dosbarth derbyn gan nad ydy'n statudol i ysgolion adrodd ar gyfrwng addysg dysgwyr sydd yn iau na phum mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

## Siart 3: Canran y disgyblion Blwyddyn 2 (saith oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion, roedd 23.1% o ddysgwyr Blwyddyn 2 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 ac mae'r ganran hon wedi aros yn eithaf cyson.

Mae Tabl 1 (islaw) yn dangos cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion sydd mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn a Blwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg ers 2011/12, ond mae tueddiad i'r niferoedd syrthio ychydig wrth symud i Flwyddyn 2. Mae'n bosib ein bod yn dechrau gweld arwyddion o effaith y pandemig ar ddewisiadau rhieni a'u plant a byddwn yn monitro'r data'n ofalus drwy CSCA yr awdurdodau lleol.

Ers cyflwyno *Cymraeg 2050*, gellir dweud ein bod wedi newid gêr o ran ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r arwyddion cynnar yn rhai cadarnhaol. Rydym wedi creu grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg penodedig er mwyn cyflymu'r broses o agor neu ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi dros £76m gyda chyfran helaeth y buddsoddiad hwnnw wedi'i gyfeirio at ehangu darpariaethau blynyddoedd cynnar, llefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chanolfannau trochi hwyr. Mae'r buddsoddiad hwn yn creu dros 3,700 o lefydd gofal plant ac ysgol ychwanegol, a 285 o lefydd mewn canolfannau neu unedau trochi hwyr ychwanegol.

Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, er nad yw'r siart yn dangos cynnydd yn y ganran.

Yn 2011/12, roedd 7,300 o ddysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda 7,840 erbyn 2021/22. Mae’r 540 yn fwy o ddysgwyr gyfystyr â thros 18 o ddosbarthiadau newydd o 30 o blant. Nid yw'r cynnydd hwn wedi’i adlewyrchu yn y canrannau gan y bu cynnydd cyffredinol hefyd yng nghyfanswm nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) dros y ddeng mlynedd diwethaf.

**Tabl 1: Nifer a chanran y plant sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, (2012-2022)**

| | Meithrin | | Dosbarth Derbyn | | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 2011/12 | 7,510 | 21.1% | 8,160 | 23.8% | 7,670 | 23.1% | 7,300 | 22.2% |
| 2012/13 | 7,010 | 20.1% | 8,290 | 23.3% | 7,830 | 23.0% | 7,550 | 22.7% |
| 2013/14 | 7,460 | 20.6% | 7,980 | 23.0% | 8,100 | 22.8% | 7,650 | 22.5% |
| 2014/15 | 7,540 | 20.6% | 8,250 | 23.3% | 7,860 | 22.7% | 7,990 | 22.4% |
| 2015/16 | 7,630 | 20.9% | 8,290 | 23.0% | 8,110 | 23.0% | 7,760 | 22.3% |
| 2016/17 | 7,650 | 21.4% | 8,330 | 23.5% | 8,120 | 22.6% | 7,950 | 22.5% |
| 2017/18 | 7,630 | 21.6% | 7,970 | 23.2% | 8,300 | 23.3% | 8,100 | 22.5% |
| 2018/19 | 7,720 | 22.0% | 7,790 | 23.1% | 8,060 | 23.4% | 8,190 | 23.0% |
| 2019/20 | 7,880 | 22.9% | 7,900 | 23.5% | 7,850 | 23.3% | 7,970 | 23.1% |
| 2020/21 | 8,580 | 23.0% | 7,900 | 23.8% | 7,900 | 23.4% | 7,700 | 22.8% |
| 2021/22 | 7,560 | 22.5% | 7,540 | 23.3% | 8,010 | 23.9% | 7,840 | 23.1% |


Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

(a) Noder nad oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y plant sydd yn astudio'r Gymraeg sydd yn iau na phum oed ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer plant Dosbarth Derbyn.

Fel arfer byddai'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn cael ei gynnal ym mis Ionawr. Fodd bynnag, oherwydd lefel yr achosion COVID-19 ym mis Ionawr 2022, gohiriwyd dyddiad y cyfrifiad i 15 Chwefror 2022. Roedd cau ysgolion rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021 oherwydd y pandemig yn golygu bod dyddiad cyfrifiad 2021 wedi’i ohirio tan 20 Ebrill 2021. Roedd nifer y disgyblion yn uwch ym mis Ebrill 2021 yn rhannol oherwydd dyddiad y cyfrifiad hwyrach a oedd yn golygu bod mwy o ddisgyblion wedi dechrau mewn dosbarthiadau meithrin erbyn dyddiad y cyfrifiad.

Rydym hefyd yn monitro cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 (14 oed fel arfer) sy’n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Gwelwyd cynnydd o 17.9% yn 2016/17 i 19.5% erbyn 2021/22. Unwaith eto, gan nad oes asesiadau athrawon wedi bod ar gael ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran gorffen yr ysgol gynradd) nac ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd) yn gyson, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr sy’n astudio’r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio data’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel ag yn achos Siart 3, mae Siart 4 hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos cysondeb cyffredinol y data.

**Siart 4: Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon


Mae Siart 4 yn dangos, yn ôl cyfrifiad ysgolion blwyddyn academaidd 2021/22, bod 21.6% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 19.5% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2011/12, ond mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2 dair mlynedd ynghynt (er enghraifft, gan gymharu Cyfnod Allweddol 2 yn 2018/19 â Chyfnod Allweddol 3 yn 2021/22).

Fodd bynnag, bydd disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sy'n newid i ddilyn y llwybr Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Bydd gwaith yr awdurdodau lleol wrth iddynt ddechrau gweithredu eu CSCA yn bwysig yn y cyd-destun hwn hefyd. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2019 yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i nodi yn eu Cynlluniau sut y byddant yn sicrhau bod dysgwyr a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau dilyniant yn destun pryder. Byddwn yn monitro cynnydd awdurdodau lleol ar weithrediad eu CSCA yn flynyddol.

Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, bydd continwwm newydd ar gyfer ieithoedd yn cael ei ddatblygu, i gynnwys y Gymraeg, a bydd pob dysgwr yn dilyn yr un llwybr

ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Felly, yn y dyfodol, bydd disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ar hyd y continwwm.

**Siart 5: Canran disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

A : Cafodd TGAU Cymraeg Ail Iaith ei diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017 gan ddisodli'r cyrsiau llawn a byr TGAU a fodolai, sy'n esbonio rhywfaint o'r cynnydd mewn Cymraeg ail iaith a welir yn y data.

Noder: O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 33% o bobl ifainc 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg – dyma'n gwaelodlin felly ar gyfer yr adroddiad hwn. Ond, byddwn yn addasu'r gwaelodlin yn ôl y galw ar gyfer y dyfodol ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2021.


Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 5.

Mae Siart 5 yn dangos fod 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2020/21 (18% Cymraeg iaith gyntaf, a 68% Cymraeg ail iaith). Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn

2008/09 (14% Cymraeg iaith gyntaf, a 56% ail iaith) – noder fod y ganran hon yn cynnwys dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer cwrs byr ail iaith.

Bydd data blwyddyn academaidd 2021/22 yn dod ar gael cyn y Nadolig a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siart 6: Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion

Noder: Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau'r disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan

Mae Siart 6 yn dangos bod 86.9% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2020/21 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd cynnydd cyson ers 2013/14, gan gyrraedd y targed o 86% erbyn 2021.

Roedd 75.2% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2020/21 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2015/16, ac wedi hen gyrraedd y targed o 65% erbyn 2021.

Bydd data blwyddyn academaidd 2021/22 yn dod ar gael cyn y Nadolig a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**e-sgol**

Mae prosiect e-sgol yn seiliedig ar e-sgoil yr Alban. Mae’n fenter ddysgu gyfunol sy’n darparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol, dysgu amser real a rhyngweithiol. Gan ddefnyddio’r ystod o offer a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu digidol gan athrawon cymwys a phrofiadol.

Cafodd prosiect e-sgol ei lansio yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 fel cynllun peilot yng Ngheredigion. Y nod oedd rhoi cyfle cyfartal i ddysgwyr ôl-14 ac ôl-16 mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru i astudio cyrsiau na fyddent ar gael iddynt fel arall. Ehangwyd y peilot yn ystod yr ail flwyddyn (2019/20) i gynnwys darpariaeth mewn ysgolion ym Mhowys ac yn Sir Gaerfyrddin. Mae prosiect e-sgol wedi bod yn ehangu’n flynyddol ers iddo gael ei lansio yn 2018. Yn ystod 2021-22, cafodd 28 pwnc (TGAU, UG a Safon Uwch) eu cynnig ar draws 28 ysgol i dros 350 o ddisgyblion drwy gyfrwng prosiect e-sgol.

Erbyn hyn, mae e-sgol ar gael i bob rhan o Gymru. Yn 2022-23, rydym wedi cynyddu’r cyllid a gaiff ei neilltuo i’r cynllun i £600,000 er mwyn parhau gyda’r gwaith. Mae cymryd rhan ym mhrosiect e-sgol yn wirfoddol a bydd y cyllid ychwanegol yn caniatáu mwy o waith hyrwyddo gyda'r nod o sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn ehangu i bob ardal consortiwm yng Nghymru o fis Medi 2023.

Yn ystod y pandemig, cyflwynwyd Cyrsiau Carlam drwy gyfrwng rhaglen e-sgol, sef cyfres o wersi ychwanegol i ddisgyblion er mwyn atgyfnerthu a chryfhau eu dealltwriaeth o’u gwaith. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliwyd dwy gyfres o’r cyrsiau yn ystod Tachwedd 2021 a Mawrth 2022 er mwyn cynnig ystod eang o bynciau i safon TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Yn ystod cyfres Tachwedd 2021, cyflwynodd 160 o athrawon 44 o sesiynau mewn saith pwnc TGAU gyda dros 1,500 o ddisgyblion yn mynychu’r sesiynau neu’n gwylio recordiad. Yn ystod cyfres Mawrth 2022, cyflwynodd 38 o athrawon 212 o sesiynau (72 TGAU / 68 Uwch Gyfrannol / 72 Safon Uwch) mewn 11 Pwnc TGAU, 11 Pwnc Uwch Gyfrannol a 13 pwnc Safon Uwch gyda dros 4,600 yn mynychu’r sesiynau neu’n gwylio recordiad. Mae’r cyrsiau hyn yn parhau yn ystod 2022-23.

**Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein hymgyrchoedd i gefnogi’r llwybr i addysg Gymraeg yn ystod 2021-22.

Rydym wedi cydweithio’n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn gwella’r wybodaeth sy’n cael ei darparu i rieni a darpar-rieni. Cynhaliwyd sesiynau rhithiol fel rhan o’r Rhaglen Cefnogi CSCA (gweler adran CSCA) yn cyflwyno ein strategaeth eiriol i gefnogi cynlluniau i hyrwyddo addysg Gymraeg. Maent yn seiliedig ar egwyddorion saernïo dewis a fframwaith EAST/ HDCA (*Easy, Attractive, Social and Timely* / Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol).

Mae is-bwyllgorau cyfathrebu a marchnata, sydd wedi'u sefydlu gan nifer fawr o awdurdodau lleol erbyn hyn, wedi helpu i wella'r wybodaeth hon gan sicrhau ei bod yn ymestyn ar draws gwaith yr awdurdod lleol, yn ogystal â phartneriaid eraill ar lefel leol a chenedlaethol. Mae nifer o awdurdodau lleol, yn eu CSCA a ddaeth i rym ar 1 Medi 2022, wedi ymrwymo i benodi swyddogion penodol i ganolbwyntio ar y CSCA neu i hyrwyddo addysg Gymraeg er enghraifft Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys a Sir Ddinbych.

Datblygwyd cyfres o fideos gydag athrawon a rhieni i geisio ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin sy'n cael eu holi am addysg cyfrwng Cymraeg. Datblygwyd fideo hefyd i egluro mwy am y system categoreiddio ysgolion. Byddwn yn targedu'r adnoddau hyn at rieni a phobl sy'n gofalu am blant yn bennaf. Byddwn yn eu rhannu hefyd gydag awdurdodau lleol i'w ddefnyddio drwy eu sianeli cyfathrebu hwy.

Byddwn yn cyhoeddi adnoddau marchnata digidol (fideos ac *animations*) i gefnogi ein ymgyrchoedd cynllunio addysg Gymraeg yn ystod tymor yr hydref.

## 4. Addysg ôl-orfodol

Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn sylweddol ar ôl 16 oed. Mae ystod o ffactorau cymdeithasol cymhleth yn dylanwadu ar bobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac astudio ôl-16, gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol), iaith y cartref a chyfleoedd am gyflogaeth.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod yna ddigon o gyfleoedd i bobl ifanc siarad Cymraeg. Byddai lleihau'r gostyngiad hwn ar ôl 16 oed fymryn yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr ynghynt.

Rydym hefyd eisiau gweld mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch er mwyn iddynt barhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol i greu'r genhedlaeth nesaf o academyddion, athrawon y Gymraeg a gweithlu lle mae galw am sgiliau iaith lefel uchel megis y cyfryngau, darlledu a chyfieithu.

Mae Siart 5 yn dangos bod cynnydd o 70% i 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg dros y degawd diwethaf. Mae'r canrannau hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg iaith ac ail iaith. Nid yw'r cynnydd yn y ganran sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Cymraeg Safon Uwch. Bu gostyngiad o 419 cofrestriad Cymraeg Safon Uwch Cymraeg iaith a Cymraeg ail iaith o 938 yn 2008/09 i 519 yn 2020/21[1].


Rydym yn monitro'r dilyniant hwn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i

[1] Mae'r data yn cynnwys cofrestriadau cyrsiau lefel uwch yr holl ddisgyblion gan gynnwys:

- Dysgwyr nad ydynt mewn ysgolion a gynhelir (disgyblion mewn colegau neu ddim mewn addysg ffurfiol).
- Dysgwyr a ymunodd â'r ysgol ar ôl cynnal y cyfrifiad.

astudio TGAU Cymraeg ddwy flynedd cyn hynny. Bydd data 2021/22 ar gael cyn y Nadolig a’r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*. Mae Siart 7 isod yn seiliedig ar ddata hyd at 2020/21.

**Siart 7: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach, iaith gyntaf ac ail iaith**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

Noder: Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau y disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid radd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

Mae Siart 7 uchod yn dangos dilyniant dysgwyr yn symud o TGAU i Safon Uwch. Erbyn y flwyddyn academaidd 2020/21, roedd 4.8% o’r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt yna wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf. Mae’n dangos hefyd bod 1.4% o’r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith ddwy flynedd ynghynt yna wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Mae canran y cofrestriadau TGAU Cymraeg sydd hefyd yn cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) wedi disgyn dros y degawd diwethaf. Un o’r rhesymau am y gostyngiad yw’r cynnydd cyffredinol yn y pynciau eraill sydd ar gael i’w hastudio fel Safon Uwch a’r pwyslais cynyddol ar astudio pynciau STEM. Mae’r niferoedd sy’n astudio Safon Uwch mewn Saesneg ac ieithoedd tramor modern hefyd wedi gostwng yn sylweddol – nid yw’n unigryw i’r

Gymraeg. Noder nad yw'r 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 y cyfeirir atynt yn Siart 5 (a oedd wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2020/21) wedi gorffen astudio cyrsiau Safon Uwch eto. Bydd rhaid aros nes bydd data casgliad 2021/22 a 2022/23 ar gael i ddangos y gwir sefyllfa ar hyn o bryd yn y niferoedd sy'n trosglwyddo o TGAU i Safon Uwch. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod disgyblion yn dilyn y llwybr TGAU iaith sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Un o ddeilliannau'r CSCA yw bod awdurdodau lleol yn cynllunio i gynyddu'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg fel Safon Uwch. Mewn nifer o ardaloedd, mae'r niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg mewn ysgolion yn isel, ac ar sail hynny, mae ysgolion yn peidio â chynnig y pwnc. Fel rhan o'r CSCA newydd, byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus er mwyn sicrhau bod y pwnc ar gael ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, buom yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu asedau a brand ar gyfer rhedeg ymgyrch barhaus i hyrwyddo Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ym mis Medi 2022.

Mae cynyddu'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg yn un o gamau gweithredu [Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg](), a hynny er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon Cymraeg i'r dyfodol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, rhoddwyd £145,000 i gefnogi'r gwaith hwn. Derbyniodd 46 o ysgolion a cholegau grantiau gwerth hyd at £3,000 yr un, i gefnogi gweithgareddau i wella profiadau dysgwyr o astudio'r Gymraeg, ac i gefnogi costau cynnal y ddarpariaeth mewn lleoliadau lle roedd nifer y dysgwyr a oedd yn astudio'r pwnc yn isel. Dyrannwyd cyllid hefyd i bedair prifysgol i ddatblygu darpariaeth sy'n rhoi profiad o'r ystafell ddosbarth i fyfyrwyr is-raddedig. Cafodd y ddarpariaeth hon ei pheilota ym mlwyddyn academaidd 2021/22. Yn ogystal, penodwyd pedwar intern i weithio'n agos gydag is-raddedigion ac ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Hefyd, aethom ati i ddatblygu a gweithredu ymgyrch farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl ifanc i ddewis astudio'r Gymraeg.

**Addysg bellach**

Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym wedi ymrwymo i "*Buddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg a chynnig darpariaeth dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed*".


Yn sgil yr ymrwymiad hwn, rydym ni wedi ymrwymo i fuddsoddi £8m yn ychwanegol erbyn 2024-25 i sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynyddu'r gyfran o brentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Bydd yr £8m yn cael ei rannu gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed.

Bydd y Coleg yn derbyn £1.5m ychwanegol yn ystod 2022-23. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i gynyddu eu capasiti addysg Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth fel iechyd a gofal

cymdeithasol, gofal plant, chwaraeon a hamdden ac amaethyddiaeth. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi dau brosiect Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gynnwys prosiect i ddenu israddedigion i ddod yn ôl i Gymru i hyfforddi fel athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach. Mae Siart 8 isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn y maes hwn yn ôl y math o ddarparwr.

**Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg ymgymerwyd â hwy gan ddysgwyr 19 oed neu iau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd**




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

(a) Mae "cyfrifion" yn eithrio cymwysterau Cymraeg, er enghraifft, TGAU Cymraeg, Safon Uwch Cymraeg, Cymraeg i Oedolion.

(b) Nid yw'r "cyfrifion" yn cynnwys nodau dysgu lefel Addysg Uwch.

(c) Pennir y math o ddarparwr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn ddibynnol ar y prif ddarparwr yn cyflwyno'r dysgu. Mae hyn yn wahanol i sail aelodau'r consortiwm a ddefnyddir mewn ystadegau a gyhoeddir mewn mannau eraill.

Fel y gwelir yn Siart 8, mae canran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith wedi cynyddu'n gyson ers 2017/18. Gwelwyd cynnydd graddol hefyd yn nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion dros yr un cyfnod.

Ers cyhoeddi Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae'r Coleg wedi cefnogi nifer o brosiectau strategol gyda 23 o brosiectau ychwanegol yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar

feysydd blaenoriaeth Iechyd a Gofal; Gofal y Blynyddoedd Cynnar; a Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer y ddarpariaeth a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

O ganlyniad, cyflogwyd tiwtoriaid ychwanegol, sefydlwyd grwpiau pynciol ar draws y colegau, datblygwyd adnoddau dosbarth a rhannwyd arfer da rhwng y sefydliadau.

Mae sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyd-fynd â chymwysterau cyfrwng Cymraeg yn allweddol i dwf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Defnyddiwyd £190,000 i ddatblygu a chyfieithu adnoddau helaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg, gan gynnwys:

- Prosiect adnoddau digidol
- Lefel 2 amaethyddiaeth
- Prentis-iaith 3 a 4 – ar lefelau hyder a rhuglder.

Mae Prentis-iaith, adnodd rhyngweithiol i'r sector prentisiaethau, yn parhau i fod yn hynod lwyddiannus wrth gynorthwyo prentisiaid heb sgiliau Cymraeg, neu ag ychydig sgiliau yn unig, i wella eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd gwasanaeth cwsmer. Mae nifer o ddarparwyr prentisiaethau eisoes wedi ymgorffori Prentis-iaith yn eu rhaglenni, ac yn dilyn y galw am lefelau ychwanegol, mae adnoddau ar gyfer lefelau hyder a rhuglder wedi'u comisiynu er mwyn cynyddu sgiliau prentisiaid ymhellach.

Mae'r cynllun Llysgenhadon Dysgwyr i'r sector ôl-16 hefyd wedi'i ymestyn. Penodwyd 58 o Lysgenhadon Coleg a 12 o Lysgenhadon Prentisiaethau er mwyn cynorthwyo darparwyr hyfforddiant i fagu hyder dysgwyr yn eu Cymraeg, ac i gynnig cyfleoedd i sgwrsio a deall pwysigrwydd siarad yr iaith, yn enwedig yn y gweithle.

Mae hyfforddiant i diwtoriaid / ymarferwyr yn allweddol wrth fynd ati i ehangu'r ddarpariaeth. Yn ystod yr wyth mis o fis Awst 2021 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, hyfforddwyd dros 600 yn y sector ôl-16.

Yn ystod yr un cyfnod, cefnogwyd 95 aelod o staff i godi hyder a'u galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd drwy Raglen Fentora Genedlaethol Sgiliaith.

Ym mis Awst 2021, lansiwyd y Cynllun Gwreiddio ar gyfer staff ôl-16 gyda'r bwriad o feithrin cymuned o staff er mwyn cynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn 2021/22, cofrestrodd dros 400 o staff ar y Cynllun.

## Addysg uwch

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsiau drwy grantiau ar y cyd â'r sefydliadau, yn hytrach nag ariannu swyddi


darlithwyr, sy'n gwreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r arlwy. Bellach, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn 25 o'r prif grwpiau pwnc.

Yn 2021/22, dyfarnwyd 60 o grantiau i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys grantiau sbarduno newydd i gefnogi darpariaeth rhyngbroffesiynol iechyd ym Mhrifysgol Glyndŵr a darpariaeth rhyngddisgyblaethol Dyniaethau a Dinasyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Pan sefydlwyd y Coleg yn 2011, roedd 710 o staff mewn prifysgolion yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r ffigwr wedi codi i 1,060. Cefnogir y darlithwyr drwy raglen hyfforddiant staff academaidd misol sy'n cynnwys hyfforddi wyneb yn wyneb, dysgu o bell a gweithdai.

Dyfarnwyd 11 ysgoloriaeth ymchwil newydd yn 2021/22 mewn ystod o bynciau academaidd, gan gynnwys Astudiaethau Addysg, Biofeddygaeth, Cerddoriaeth, Fferylliaeth, a Gwaith Ieuenctid.

**Siart 9: Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Bu cynnydd o 1,305 yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru a oedd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu haddysg rhwng 2019/20 a 2020/21, yn dilyn gostyngiadau ers 2016/17. Noder, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau yn gyffredinol rhwng 2019/20 a 2020/21. Cofrestrodd y ganran fwyaf, 45% o fyfyrwyr ar gyfer astudio rhwng 5 a 40 credyd yn y Gymraeg yn 2019-20, lle bu 880 yn fwy o gofrestriadau na'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r sector addysg drydyddol yn ganolog i'n hymdrechion i gyrraedd nodau ac amcanion *Cymraeg 2050*. Felly, yn 2023, byddwn yn sefydlu'r Comisiwn Addysg

Drydyddol ac Ymchwil newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bydd gan y Comisiwn newydd rôl hollbwysig i ehangu'r arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg drydyddol. Yn benodol, bydd disgwyl i'r Comisiwn:

- Gynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gyflwyno, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gynllunio llwybrau dilyniant fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu parhau â'u dysgu ôl-16 a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog.
- Monitro argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw bynciau lle na ellir diwallu'r galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.
- Gweithio'n effeithiol ac yn strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni'r uchod.

**Dysgu Cymraeg**

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2015 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu defnydd dyddiol o'r iaith.

O ganlyniad i COVID-19, daeth darpariaeth wyneb yn wyneb y Ganolfan i ben ar ddechrau 2020, gan symud i ddysgu'n rhithiol. Fe wnaeth y drefn honno barhau yn ystod 2021-22 gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb yn dychwelyd lle bu hynny'n bosib. Yn ystod 2021-22, fe wnaeth y Ganolfan barhau i ddarparu cyrsiau dysgu cyfunol a rhithiol. Erbyn 31 Mawrth 2022, roedd 59% neu dros 17,000 o'r gweithgareddau dysgu yn cael eu cynnal yn rhithiol ar-lein, a 4% neu dros 1,100 o'r gweithgareddau yn rhai cyfunol, sy'n cyfuno dysgu annibynnol â sesiynau ar-lein gyda thiwtoriaid. Defnyddir adnoddau digidol sydd wedi'u datblygu gan y Ganolfan i hwyluso'r dysgu i'r dysgwyr hyn.

Ar 31 Mawrth 2022, cyhoeddodd y Ganolfan set o ddata cyflawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Mae'r data'n dangos bod gan y Ganolfan 14,965 o ddysgwyr unigryw yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Mae'r data hefyd yn dangos:

- Bod y Ganolfan wedi darparu 29,175 o weithgareddau dysgu yn ystod 2020/21.
- Bod 63% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Bod 14% ar lefel Sylfaen a 23% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Bod 73% o'r dysgwyr rhwng 25 a 64 oed, 14% yn hŷn na 65, a 13% rhwng 16-24 mlwydd oed.

Fel rhan o’n *Rhaglen Lywodraethu*, mae’r Ganolfan Dysgu wedi dechrau cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc o fis Medi 2022 ac yn gwneud hynny mewn cydweithrediad â’r Coleg Cymraeg. Bydd gwersi am ddim hefyd yn cael eu cynnig i’r gweithlu addysg.

Mae’r Ganolfan hefyd yn arwain ar brosiect peilot sy’n cymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Cynhaliwyd cwrs peilot ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer 15 o israddedigion er mwyn rhoi blas iddynt ar ddod yn diwtoriaid Dysgu Cymraeg neu’n athrawon.

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

### Gweithlu’r Blynyddoedd Cynnar

Yn ystod 2021-22, fe wnaeth rhaglen datblygu proffesiynol parhaus ‘Academi’ gynnig hyfforddiant i dros 2,300 o aelodau staff a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru.

At hynny, drwy Gynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin, mae 19 wedi cymhwyso drwy’r Prentisiaethau Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn ystod 2021-22 gyda 25 arall wedi cymhwyso erbyn diwedd Gorffennaf 2022 a bydd 16 arall wedi cymhwyso erbyn Mawrth 2023. Dechreuodd 28 dysgwr newydd ym mis Mai 2022 a byddant yn cwblhau ym mis Tachwedd 2023. Yn ogystal, bydd chwe dysgwr yn cwblhau’r Prentisiaeth Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5 ym mis Medi 2022 gydag un arall yn cwblhau ym mis Mai 2023.

Rydym wedi parhau i ddatblygu rhaglen ‘Croesi’r Bont’, sy’n cyflwyno methodolegau trochi’r Gymraeg i ymarferwyr mewn Cylchoedd Meithrin.

Mae rhaglen hyfforddiant ‘Camau’ y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi galluogi ymarferwyr a darpar ymarferwyr i gymhwyso a gweithio’n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Dilynodd 595 gwrs Camau yn ystod 2021-22. Yn ogystal, mae 281 o unigolion wedi cofrestru ar y cwrs ‘Gwybodaeth am y Gymraeg’ (cwrs sy’n codi ymwybyddiaeth y gweithlu o bwysigrwydd cynyddu sgiliau ieithyddol Cymraeg er mwyn trosglwyddo i blant ifanc).

### Athrawon

Mae cynyddu nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu’r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o’r newidiadau trawsnewidiol a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Er mwyn gallu gweld twf yn nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg, mae angen sicrhau gweithlu digonol i’w haddysgu ac mae hyn yn gallu bod yn heriol.

Mae’r data diweddaraf o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos cynnydd yn nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf. Mae’r cynnydd i’w weld ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ond mae’r cynnydd yn fwy sylweddol ar gyfer ysgolion uwchradd (gweler Siart 10 isod).

Mae denu nifer digonol o athrawon i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n her. Serch hynny, yn 2020/21 bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr addysg gychwynnol Athrawon (AGA) blwyddyn gyntaf yng Nghymru sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg am yr ail flwyddyn yn olynol – 455 oedd y ffigur yn 2020/21. Mae hyn yn cyfrif am 27% o gyfanswm nifer y myfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf yng Nghymru[2].

Yn ystod 2021-22, gweithiwyd gyda nifer o randdeiliaid i ddatblygu cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd ar 24 Mai, yn cynnwys dadansoddiad o'r cynnydd hyd yma yn y maes hwn a'r camau gweithredu i roi'r nodau canlynol ar waith:


- Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr.
- Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Tra bod y gwaith o ddatblygu'r cynllun hirdymor yn mynd rhagddo, parhawyd i weithredu nifer o weithgareddau, yn cynnwys:

- Cynnal ail flwyddyn o'r cynllun pontio i roi cefnogaeth i 14 o unigolion i drosi i addysgu yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Cynnig cymhelliant Iaith Athrawon Yfory i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd.
- Cynnig grantiau i 46 o ysgolion neu golegau addysg bellach i gefnogi cynnig y Gymraeg / Cymraeg ail iaith fel pwnc safon uwch.
- Cynnal cyrsiau'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg i ymarferwyr ar wahanol lefelau ieithyddol i 112 o ymarferwyr.

[2] Ceir dadansoddiad llawn o'r data yn: *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*

## Siart 10: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

### Y gweithlu ôl-16

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, fe wnaethom barhau i ariannu Sgiliaith i roi cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Fel bod modd i fyfyrwyr ymgymryd â mwy o'u haddysg yn ddwyieithog, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal rhaglen Cymraeg Gwaith benodol ar gyfer y sector addysg bellach ac addysg uwch er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid a darlithwyr. Yn ystod 2021-22, dilynodd 407 o gyflogeion y cwrs 'Dysgu', gydag wyth prifysgol ac 11 o golegau addysg bellach wedi ymrwymo i'r cynllun. Hefyd, dilynodd 281 o gyflogeion y cwrs 'Hunan-Astudio' a 984 o gyflogeion y cwrs 'Blasu Hunan-Astudio' ar-lein.

### Adnoddau addysg

Drwy gydweithio â gwahanol sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector, y sector creadigol a chyhoeddwyr, sicrhawyd bod amrywiaeth o adnoddau ar gael yn ddigidol i gefnogi dysgu o bell yn 2021-22.

Rhyddhawyd rhagor o raglenni S4C ar Sianel S4C ar Hwb i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg. Buom yn cydweithio gyda S4C hefyd i fanteisio ar gyfleoedd i greu deunydd addysgol i gyd-fynd â rhaglenni. Enghraifft o hyn yn ystod y flwyddyn oedd adnoddau digidol i gefnogi'r gyfres 'Bex' gan gwmni Ceidiog ar gyfer dysgwyr 8-12 oed. Mae'r rhaglenni a'r adnoddau'n edrych ar anhwylderau gorbryder a chyflyrau emosiynol dwys ymysg plant a phobl ifanc drwy ddefnyddio

cymysgedd o ddrama ac animeiddiad. Mae'r adnoddau hefyd yn cynnig arweiniad i athrawon ar sut i ofalu am eu lles personol eu hunain wrth geisio ymdopi, dygymod a goresgyn heriau gwaith a bywyd bob dydd.

Dyfarnwyd grant i gynllun peilot Croeso Cyw ar y cyd ag S4C a Chyngor Sir Gâr i greu cynllun iaith yn seiliedig ar frand Cyw a fyddai'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth o raglenni S4C, gan ysgogi rhieni di-hyder o ran y Gymraeg i gyd-chware a chyd-ddysgu Cymraeg gyda'u plant.

Cynhaliwyd gwaith i adnabod yr adnoddau sy'n bodoli ar gyfer dysgu am hanes a chyfraniad Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn unol ag argymhellion yr Athro Charlotte Williams. Dechreuwyd ar y gwaith o gomisiynu adnoddau o'r newydd i gefnogi athrawon yn y maes hwn.

Parhawyd i gomisiynu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd ac yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd *Hanes yn y Tir* / *A History Grounded* – llyfr am hanes Cymru, a ysgrifennwyd gan Dr Elin Jones a chyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch. Dosbarthwyd copi Cymraeg a Saesneg i bob ysgol yng Nghymru i gefnogi gwersi am hanes Cymru, ein hiaith a'n diwylliant.

Dyfarnwyd grant i Ganolfan Bedwyr i barhau i gynnal ac ychwanegu at y Termiadur Addysg ar-lein. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd dros 2,000 o dermau newydd. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, atebwyd dros 400 o ymholiadau yn ymwneud â thermau o amrywiol feysydd ym myd addysg.

Er mwyn cefnogi cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch, cyhoeddwyd dros 30 teitl newydd yn ystod 2021-22 drwy grant a ddarparwyd i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), i ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau a llyfrau adolygu.

Parhaodd y gwaith gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adnabod yr angen am adnoddau digidol dwyieithog i fyfyrwyr ôl-16 ym meysydd iechyd a gofal, gofal plant, amaethyddiaeth, a gwasanaethau cyhoeddus i'w defnyddio ar gyfer darpariaeth dysgu cyfunol, ynghyd ag adnoddau i gefnogi prentisiaethau.

Parhaodd y gwaith datblygu ar sawl adnodd Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn dan sylw ac ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd yr adnodd teipio testun Cymraeg cyntaf o'i fath. Mae'r adnodd yn cefnogi dysgwyr i gyffwrdd-deipio (*touch type*).

Ar 3 Mawrth 2022, cyhoeddwyd ein bwriad i sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant i ddarparu trosolwg strategol o'r ddarpariaeth o adnoddau Cymraeg a dwyieithog i gefnogi Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau ac i gomisiynu adnoddau lle bo angen. Bydd y cwmni'n weithredol erbyn mis Ebrill 2023.

# Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Mae cynyddu niferoedd a all siarad Cymraeg yn un o ddau brif darged Cymraeg 2050, ond law yn llaw â hynny, mae cynyddu defnydd o'n hiaith yn hollbwysig a dyma ail bennawd ein strategaeth. Rydym ni'n credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym ni am i bawb, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, deimlo'n hyderus i'w defnyddio bob dydd. Ac rydym ni'n creu cyfleoedd ar gyfer y defnydd dyddiol hwnnw.

I gefnogi hyn, dywed y *Rhaglen Lywodraethu* ein bod am "*Gefnogi'r cynnydd mewn gofodau Cymraeg, gan gynnwys gweithleoedd*" ac fe ddywed y *Cytundeb Cydweithio* ein bod am "*Hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol mewn mwy o leoedd*." Rydym yn manylu ar ein gwaith yn y maes hwn yn yr adran hon.

## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym ni wedi gosod targed i gynyddu canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o'n hiaith i 20% erbyn 2050.

Mae'r darged hon hefyd yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]().

Sefydlwyd saith nod llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac maent wedi'u cynnwys yn y gyfraith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol bob blwyddyn i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi cipolwg ar gyflwr y wlad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y saith nod llesiant drwy'r 46 dangosydd cenedlaethol.

Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith achlysurol. I'r perwyl hwnnw, dechreuodd y gwaith o gynnal Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, a'r bwriad oedd iddo barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Serch hynny, oherwydd COVID-19, bu'n rhaid atal yr arolwg ar ei ganol ym mis Mawrth 2020.

Mae arolygon defnydd iaith (2013-15 a 2019-20) yn dangos bod 10% o'r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg yn ddyddiol a mwy nag ychydig o eiriau. Mae hyn felly'n golygu bod hanner siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd yn dangos mai plant a phobl ifanc yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl y cyfrifiad a'r arolygon, gyda'r ddwy ffynhonnell yn awgrymu bod oddeutu 40% of unigolion 3-15 oed yn gallu gwneud hynny. Yr oedd pobl iau y tu hwnt i oedran addysg orfodol yn llai tebygol o nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae'r adroddiadau'r Arolwg Defnydd iaith yn darparu dadansoddiad o'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant ac oedolion. Dangosodd mai plant sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol – hynny, mae'n debyg oherwydd


defnydd rheolaidd mewn ysgolion. Roedd y ganran o unigolion rhwng 3 a 15 oed a oedd yn siarad Cymraeg yn ddyddiol yn sylweddol uwch nag unrhyw grŵp oedran arall, gyda bron i chwarter ohonynt yn siarad Cymraeg yn ddyddiol. Mae'r canran o unigolion rhwng 3 a 15 mlwydd oed a oedd yn siarad Cymraeg yn ddyddiol yn debyg i'r canran o ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, ysgolion canol ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, er nad ydym yn gwybod ai yr un plant ydynt, o angenrheidrwydd.

Mae plant rhwng 3 a 15 oed yn llawer mwy tebygol o fod wedi dechrau dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol na'r rhai 65 oed neu hŷn (69% o'i gymharu â 15%). Mae hyn mae'n debyg oherwydd y newid sylweddol yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gyda chynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi eu hagor ledled Cymru.

Dengys yr Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 bod siaradwyr Cymraeg a ddechreuodd ddysgu siarad yr iaith yn y cartref fel plant ifanc yn llawer mwy tebygol o siarad yr iaith bob dydd o'i gymharu â'r rhai a ddechreuodd ddysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol neu fel oedolion yn rhywle arall.

Er mai arolygon defnydd iaith sy'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn).

**Siart 11: Canran y bobl 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran yr oedolion 16 oed neu hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg wedi aros yn eithaf sefydlog, yn debyg iawn i ganfyddiadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. 12% oedd y ganran yn 2021-22.

Er nad oedd cynnydd wedi bod yn y dangosydd cenedlaethol ar ddefnydd rhwng Arolygon Defnydd Iaith 2013-15 a 2019-20, wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg yn unig (yn hytrach na'r boblogaeth gyfan), gallwn weld fod dros hanner (56%) y siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd yn 2019-20 (waeth beth fo lefelau eu rhuglder) o'i gymharu â 53% yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Roedd hefyd bron i un ym mhob pump yn siarad yr iaith bob wythnos (19%, union yr un ganran ag yn 2013-15). Roedd y canrannau hyn yn amrywio yn ôl oedran, ac ar eu huchaf ar gyfer y rhai 3 i 15 oed, ac ar eu hisaf ar gyfer y rhai 16 i 29 oed.

Rydym yn parhau i gyhoeddi gweddill canfyddiadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 mewn bwletinau ystadegol ar wahân, yn ôl thema, gan gyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol.

Ceir mwy o wybodaeth ar hwn yn yr adran Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

**Defnydd iaith yn yr ysgol – Y Siarter Iaith**

Mae'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig (Cymraeg Campus, Siarter Iaith ysgolion uwchradd, a Cymraeg Bob Dydd) yn gweithredu yn ein hysgolion i gynyddu defnydd iaith ymhlith pobl ifanc o 3-18 oed.

Nod y Siarter yw creu dinasyddion dwyieithog y dyfodol, a fydd yn:

- Siaradwyr Cymraeg greddfol, naturiol, cyfforddus a hyderus.
- Defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd eu hunain.
- Siarad Cymraeg â'i gilydd p'un a ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg ai peidio.
- Hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg a bod ag agwedd gadarnhaol tuag ati.

Mae pedwar cynllun gwahanol yn rhan o'r Siarter:

- Siarter Iaith ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cymraeg.
- Siarter Iaith Uwchradd ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg.
- Cymraeg Campus ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- Cymraeg Bob Dydd ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Rydym yn cyllido'r Urdd i ddarparu Cymraeg Bob Dydd i'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, a'r consortia addysg rhanbarthol neu siroedd unigol sy'n darparu'r tri chynllun arall.

Yn ystod 2021-22, rydym wedi gweithio i gryfhau'r cysylltiad rhwng y Siarter Iaith a phartneriaid allanol sy'n gweithio i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol. Fe wnaethom ni weithio gyda'r BBC i greu rhestr chwarae fisol ar Radio Cymru 2 a BBC Sounds o ganeuon cyfoes Cymraeg ar gyfer pobl ifanc o 7-12 oed. Hefyd, cyhoeddwyd ail lyfr Seren a Sbarc – *Seren a Sbarc a'r Pei(riant) Amser* – gan Huw Aaron ac Elidr Jones mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru ac mae'n dilyn hynt a helynt Seren a Sbarc ar wibdaith drwy hanes Cymru. Dosbarthwyd dros 8,500 o gopïau o'r llyfr i holl ysgolion cynradd Cymru am ddim ym mis Hydref. Bydd y trydydd llyfr yn y gyfres yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Mae gweithgareddau Seren a Sbarc hefyd ar gael yn safleoedd yr Amgueddfa ledled Cymru.

## 6. Y gweithle

Un o amcanion *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan fod "*y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg*."

### Cymraeg Gwaith

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ohoni, mae Cymraeg Gwaith hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr.

Roedd y flwyddyn adrodd yn flwyddyn lwyddiannus i'r rhaglen. Fe wnaeth 319 o gyflogwyr fanteisio ar gyrsiau Cymraeg Gwaith yn 2021/22, gyda 102 ohonynt yn gyflogwyr newydd i'r cynllun. Roedd 100% o'r cyflogwyr yn bwriadu parhau i fod yn rhan o'r cynllun yn y dyfodol.

Mae Cymraeg Gwaith yn darparu cyrsiau ar draws ystod o lefelau. Fe wnaeth 4,539 o bobl ddilyn cyrsiau blasu hunan-astudio, 1,549 fanteisio ar cyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor, a 216 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn cyrsiau dysgu dwys.

Yn ogystal, fe brofodd y cyrsiau sectorol yn boblogaidd unwaith eto yn ystod 2021/22, gyda 1,672 yn cymryd rhan yn y cyrsiau i'r sectorau addysg bellach ac uwch, 289 yn y rhaglen i awdurdodau lleol, 669 yn y rhaglen i'r sector iechyd a 876 yn y rhaglen *'Camau'* sydd wedi cael ei datblygu'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant. Darparwyd 7,712 o weithgareddau dysgu yn ystod 2021/22.

2021/22 oedd y flwyddyn gyntaf i Cymraeg Gwaith ddarparu cyrsiau i athrawon a gweithwyr addysg. Yn ystod 2021/22, bu cydweithio gyda'r consortia addysg i ddatblygu cwrs blasu hunan-astudio newydd ar gyfer penaethiaid ac athrawon. Ers lansio'r cwrs, mae 15 wedi cwblhau'r cwrs Arweinwyr mewn Addysg a 344 wedi cwblhau'r cwrs Ymarferwyr mewn Addysg. Yn ogystal â'r datblygiad hwn, cynhaliwyd prosiect peilot ar gyfer cwrs mynediad ar-lein i athrawon gyda chefnogaeth tiwtor. Yn dilyn y prosiect peilot llwyddiannus, datblygwyd cwrs hunan-astudio llawn ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd gyda chefnogaeth tiwtor. Dechreuwyd recriwtio ar gyfer y cwrs hwn ym mis Ionawr 2022 a hyd at mis Mawrth 2022, roedd 377 o athrawon wedi cofrestru diddordeb yn y cwrs.

### Y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

Yn ein strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru – '*Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd'* – rydym yn gosod nod hirdymor i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y sefydliad. Ein nod yw y bydd yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050, sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio'n naturiol ac yn gyfnewidiol.

Mae gweithleoedd yn beuoedd arwyddocaol ar gyfer defnydd iaith. Mae arolygon yn dangos fod pobl mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae profi gwerth y Gymraeg fel sgil alwedigaethol yn fodd o ddylanwadu ar benderfyniadau unigolion i fynd ati i ddysgu Cymraeg, ac ar benderfyniadau rhieni i anfon eu plant i ysgolion Cymraeg.

Yn ogystal â gosod nod hirdymor ar gyfer 2050 yn ein strategaeth defnydd mewnol, rydym hefyd yn gosod amcan tymor byrrach ar gyfer y cyfnod hyd at 2025. Ein nod yw dod yn sefydliad dwyieithog erbyn 2050, ond yn ystod y pum mlynedd gyntaf, ein hamcan yw gweld Llywodraeth Cymru yn dod yn sefydliad sy'n dangos esiampl o ran cynyddu defnydd mewnol o'r iaith pan gaiff ei asesu yn erbyn sefydliadau cymaradwy yn sector cyhoeddus Cymru.


Dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers cyhoeddi'r strategaeth, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r bedair thema sy'n sail iddi: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Rydym wedi cynyddu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, sydd wedi arwain at gynnig mwy amrywiol a hygyrch ac sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru, erbyn Mai 2022 roedd y nifer wedi codi i 366. Mae ein harlwy dysgu Cymraeg yn cynnwys:

- Gwersi wythnosol
- Gwersi hunan-astudio
- Sesiynau Cymraeg Gwaith
- Cwrs Codi hyder (ar gyfer staff sydd wedi cael eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg, neu a fagwyd yn siarad Cymraeg, ond sydd heb ddefnyddio'u sgiliau yn ddiweddar).

Rydym hefyd wedi gweithio yn y meysydd canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Parhau i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff newydd sy'n ymuno â'r sefydliad.
- Datblygu hyfforddiant cynefino newydd ar gyfer yr holl Uwch-weision Sifil sy'n ymuno â'r sefydliad, ac rydym wrthi'n datblygu pecyn hyfforddiant newydd a phenodol i'r garfan hon o swyddogion.
- Nodi yn ein prosesau recriwtio bod sgiliau'r Gymraeg yn gaffaeliad i weithio yn Llywodraeth Cymru, waeth beth fo'r swydd, ac rydym wedi ymrwymo i helpu ein gweithwyr i ddatblygu a gwella eu sgiliau yn barhaus.
- Adolygu ein darpariaeth technoleg i staff er mwyn cynnig gosodiadau Cymraeg yn ddiofyn i'n siaradwyr Cymraeg, ac rydym wedi rhoi rhaglen beilot ar waith i gynyddu defnydd y Gymraeg rhwng cydweithwyr yn y gweithle (ARFer).
- Parhau i ddatblygu ein Rhwydwaith iaith Gymraeg fel gofod i staff ymarfer a gwella'u hyder drwy gael sgyrsiau a rhannu'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hyfforddiant, cyfleoedd, y cyfryngau ac ati gydag eraill. Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg mewnol ar ein Lab Dysgu gyfanswm o 402 o aelodau – o'r rhain, ymunodd 150 yn ystod y cyfnod adrodd.

**Siart 12: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith**




Ffynhonnell: Arolwg Pobl (Llywodraeth Cymru) a Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa Cabinet y DU)

(a) Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015. Yn 2016 cafodd y categori "Mwy o Saesneg na Chymraeg" ei rannu'n dri chategori pellach, sef "mwy o Saesneg na Chymraeg ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol".

(b) Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae data Siart 12 yn dangos fod 30% o weithlu Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith. Drwy gyrraedd ein nod o weld yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050, byddwn yn galluogi ein staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac fe fydd yna gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.

### ARFer

Mae'r prosiect ARFer yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad, a'u helpu i gyflwyno gwasanaethau yn well.

Mae Prifysgol Bangor yn gweinyddu'r prosiect drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y prosiect yw creu cist arfau i sefydliadau eraill fynd i'r afael â newid ymddygiad ieithyddol rhyngbersonol yn y gweithle. Yn sgil COVID-19, mae ARFer yn edrych ar sut y mae arferion iaith pobl yn y gwaith wedi newid gyda chynifer o bobl bellach yn gweithio o'u cartrefi. Rydym wedi bod yn dylunio ac yn paratoi'r pecyn rhyngweithiol ac wedi dechrau ei dreialu yn ystod 2021-22. Y bwriad maes o law yw bod ARFer yn rhan o gyfres o ymyraethau y gall sefydliadau eu defnyddio i esblygu diwylliant sefydliadol dwyieithog sy'n cofleidio gwerthoedd *Cymraeg 2050*.

### Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog

Rhaglen 'iaith mewn arweinyddiaeth' yw hon. Mae'r sawl sy'n mynychu'n cael dysgu am sefyllfa'r Gymraeg, a chnoi cil ar eu barn a'u profiadau nhw o ddwyieithrwydd. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd megis:

- Bias isymwybodol
- Iaith a phŵer
- Iaith a diwylliant
- Ymddygiadau arweinwyr
- Gweledigaeth a gwerthoedd

Yn ystod 2021-22, fe wnaeth cyfnod peilot y rhaglen ddod i ben. Fe'i hwyluswyd gan bartneriaeth rhwng cwmni o arbenigwyr allanol, Is-adran Cymraeg 2050 ac Academi Wales. Fe wnaethon ni hefyd ffurfio 'Cymuned Arfer' i bobl sy'n mynychu'r cwrs gael trafod gyda'i gilydd sut mae ymgorffori ysbryd *Cymraeg 2050* yn eu sefydliadau. Byddwn ni'n mynd ati i greu fersiwn bellach o'r rhaglen ar sail yr adborth yr ydym wedi ei dderbyn maes o law.

## 7. Gwasanaethau

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym yn ymrwymo i:

*Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i leihau rhwystrau wrth bennu Safonau'r Gymraeg; symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu safonau, heb wanhau eu heffaith; gweithredu safonau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai, i'w gwblhau yn ystod tymor y Senedd. Rydym wedi ymrwymo i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn llawn a byddwn yn llunio rhestr ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno safonau pellach o dan ei atodlenni y tu hwnt i gyfnod y cytundeb hwn*.

Cynhaliwyd adolygiad yn 2019-20 i ystyried a allai'r broses o greu safonau fod yn fwy effeithiol. Gwnaed hyn mewn ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Senedd flaenorol. Penderfynwyd na ellid ond gwneud newidiadau cyfyngedig i'r broses o baratoi safonau oherwydd y ffaith fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud sawl rhan o'r broses yn orfodol. Fodd

bynnag, nododd swyddogion polisi ffyrdd o symleiddio a mireinio rheoliadau'r safonau eu hunain ac mae'r rhain eisoes ar waith.

Fe wnaeth y gwaith o baratoi rheoliadau safonau ar gyfer rheoleiddwyr iechyd barhau yn ystod 2021-22, a chymeradwywyd y Rheoliadau hynny gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Bydd y Rheoliadau'n dod i rym ar 31 Hydref 2022 a mater i Gomisiynydd y Gymraeg wedyn fydd dechrau'r broses o osod y safonau ar gyrff.

Nesaf, byddwn yn paratoi safonau i'w gweithredu maes o law ar gyfer cwmnïau dŵr, trafnidiaeth gyhoeddus, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau, a hynny o dan ambarél y Cytundeb Cydweithio. Byddwn hefyd yn dechrau'r gwaith o baratoi safonau ar gyfer cymdeithasau tai – i'w gwblhau yn ystod tymor y Senedd hon.

### Helo Blod

Mae Helo Blod yn helpu unigolion, busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg drwy gynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, yn darparu nwyddau 'Iaith Gwaith' ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol. Gellir cysylltu â Helo Blod dros y ffôn, drwy'r wefan, e-bost, a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod 2021-22, fe wnaeth gwasanaeth Helo Blod:

- Dderbyn 3,992 o geisiadau cymorth a chyfieithu – 2,044 gan fusnesau, 1,193 gan elusennau a 755 gan unigolion.
- Cyfieithodd Helo Blod 647,107 o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg a gwriwyd 23,555 o eiriau Cymraeg.
- Crëwyd 1,917 o gyfrifon ar gyfer y gwasanaeth yn y cyfnod: 849 gan fusnesau, 314 gan elusennau a 754 gan unigolion.
- Crëwyd 157 o gyfrifon gan fusnesau ac elusennau y tu allan i Gymru.
- Caerdydd (159) oedd yr ardal gyda'r nifer fwyaf o gyfrifon newydd yn cael eu creu gan fusnesau ac elusennau, gyda Gwynedd yn ail (118).
- Y sector diwylliant creadigol (132) oedd gyda'r nifer uchaf o fusnesau'n creu cyfrifon gyda manwerthu (75) yn ail, a thwristiaeth (66) a gwasanaethau gofal (58) hefyd yn uchel.

### Gwerthuso 'Mwy na geiriau'

Bwriad *Mwy na geiriau*, fframwaith strategol ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yw sicrhau bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal, a bod pobl sydd angen gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol.

Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o *Mwy na geiriau* yn 2018 a chyhoeddwyd y casgliadau ym mis Awst 2021. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er bod cynnydd

wedi'i gyflawni mewn perthynas â phob un o'r saith amcan, na ellid ystyried bod yr un ohonynt wedi'i gyflawni'n llawn.

Yn gyffredinol, dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad fod gallu llawer o siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i'w profiad cyffredinol, ac mewn llawer o achosion, i'r canlyniadau iechyd a lles a gawsant o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, dangosodd y canfyddiadau hefyd fod defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a'u bod yn amharod i ofyn amdanynt pan na chânt eu cynnig.

Un o gasgliadau'r adroddiad oedd bod angen parhaus am *Mwy na geiriau*. Fodd bynnag, awgrymodd yr adroddiad fod angen i rôl *Mwy na geiriau* newid o fod yn fframwaith strategol y gall y sector gynllunio darpariaeth ar ei sail i fod yn alluogwr, gan gefnogi'r sector i roi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar waith a chefnogi nodau *Cymraeg 2050*.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu cynllun gwaith 5 mlynedd newydd ac uchelgeisiol ar gyfer *Mwy na geiriau* yn seiliedig ar argymhellion y gwerthusiad a thystiolaeth arall i sbarduno newid diwylliannol a chynnydd pellach.

Ers cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Hydref 2021, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi ymgymryd â'i waith ar sail thematig i ystyried y materion allweddol a amlygwyd gan y gwerthusiad o *Mwy na geiriau* a gyhoeddwyd yn Awst 2021:

- Sut i ymgysylltu a hyrwyddo lefel yr arweinyddiaeth sydd ei hangen i ysgogi newid.
- Pwysigrwydd llwyfannau a systemau digidol Cymraeg.
- Dysgu a sgiliau'r gweithlu.
- Rhannu arfer da a datblygu dull galluogi.
- Ymgorffori'r Gymraeg mewn polisïau.
- Defnyddio Llais y Gymraeg.
- Rôl a phwrpas Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r cadeirydd hefyd wedi cyfarfod â rhanddeiliaid / partneriaid a rhwydweithiau allweddol a chynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid ym mis Mawrth 2022 i rannu syniadau a oedd wedi dod yn amlwg gyda'r themâu a chamau gweithredu. Daeth nifer dda i'r gweithdy gyda chynrychiolaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd cefnogaeth i'r themâu a gynigiwyd a darparwyd syniadau pellach i ddatblygu camau gweithredu i sicrhau bod y cynllun *Mwy na geiriau* newydd yn uchelgeisiol ac yn sbarduno newid dros y pum mlynedd nesaf.

Cyhoeddwyd y cynllun *Mwy na geiriau* newydd ar 2 Awst 2022.

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hanfodol er mwyn i ni allu cyrraedd ein targed o ddyblu defnydd dyddiol o'n hiaith. Gan nad yw'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol ledled Cymru, rhaid cynllunio i greu, gwarchod ac ehangu cyfleoedd lle gallwn ddefnyddio'n Cymraeg gyda'n gilydd i gymdeithasu ac i fwynhau.

### Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom gyhoeddi *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg*, sef adroddiad ymchwil yn edrych ar effaith COVID-19 ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, roedd yr ymchwil yn dangos yn glir bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar lawer o weithgarwch cymunedol Cymraeg.

Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad, sefydlwyd is-grŵp o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg i edrych ar ba waith yr oedd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau a gododd yr adroddiad a chafwyd cyfres o argymhellion i'r perwyl hwnnw. Fe wnaethom gynnal sawl sesiwn 'estyn allan' gyda'n partneriaid cymunedol er mwyn cael adborth ar gyfer ein hymateb i'r argymhellion hynny.

Ym mis Gorffennaf, 2021 fe wnaethom gyhoeddi'r ymateb hwnnw: *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: ymateb y llywodraeth*.

Pwyslais is-grŵp Cyngor Partneriaeth y Gymraeg oedd sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg yn ddyddiol, er gwaetha'r ffaith bod y pandemig wedi atal cysylltiad wyneb yn wyneb i raddau sylweddol, a chyda hynny, y cyfleoedd i ddefnyddio'n hiaith.

Mae'n hymateb yn trafod pwysigrwydd gofodau uniaith Gymraeg – llefydd y gallwn ddefnyddio'n Cymraeg yn ddi-rwystr ynddynt. Un math o ofod uniaith Gymraeg y byddwn ni'n cynyddu ein hymwneud â nhw yw mudiadau cydweithredol. Mae'r rhain hefyd, wrth gwrs, yn cynnig cyfleoedd gwaith a chyfraniad i'r economi ac weithiau'n cynnig swyddogaeth gymdeithasol bwysig, a hynny oll yn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ac yn sgil trafodaethau gyda Busnes Cymdeithasol Cymru, a CHWMPAS (Canolfan Gydweithredol Cymru gynt), rydym wedi dechrau prosiect i greu mentrau cydweithredol newydd. Ein bwriad yw y bydd hyn yn cael ei weithredu fel rhan o'n *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*.

Dyma restr o rai agweddau eraill ar y gwaith yr ydym wedi ymgymryd ag ef yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi'n hymateb i'r argymhellion ar waith (nid yw'r rhestr mewn trefn blaenoriaeth nac yn hollgynhwysfawr).

- Yn sgil yr heriau sylweddol a amlygwyd gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru o effaith COVID-19 ar ein heisteddfodau cymunedol, rydym wedi cynyddu'n grant i'r Gymdeithas. Bydd hyn yn galluogi'r Gymdeithas i gynnig cefnogaeth bwrpasol i helpu ein heisteddfodau bach ailadeiladu eu gweithgarwch er mwyn sicrhau bod cynifer o'n heisteddfodau bychain ag sy'n bosibl yn parhau i fod yn rhan bwysig o weithgarwch ein cymunedau.

- Cydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac eraill er mwyn gweld sut orau y gellid cydweithredu wrth i ardal ymbaratoi at ymweliad yr Eisteddfod a sut y gallai Eisteddfod fod yn 'lens' ar gyfer polisi iaith mewn ardal benodol.
- Dyrannu cyllideb gyfranogol newydd, wedi'i chorlannu, i bobl leol benderfynu sut i'w defnyddio wrth ddisgwyl i Eisteddfod Genedlaethol ymweld â'u hardal, gyda'r amod bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i baratoi at waddol ieithyddol hirdymor yr Eisteddfod honno.
- Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru ar raglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog a Chwaraeon Cymru ar naratif y Gymraeg.
- Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru ar ddull newydd o fynd i'r afael â'r hyn a elwir ar hyn o bryd yn 'ymwybyddiaeth iaith' er mwyn gweld sut orau mae mynd â phobl gyda ni ar ein taith Cymraeg 2050.
- Cydweithio gyda'r mentrau iaith i ddiweddaru eu proffiliau ieithyddol lleol. Yn sgil y proffiliau newydd, bydd modd i'r mentrau addasu eu cynlluniau gwaith ar gyfer 2022-23 gan adnabod grwpiau a chymunedau sydd angen cefnogaeth.
- Diweddaru'n disgwyliadau o'n partneriaid o ran grymuso cymunedau i weithio drostynt eu hunain yn hytrach na darparu gweithgareddau yn unig.
- Rydym wedi comisiynu adolygiad o gynllun grantiau hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Bydd yr adolygiad yn sail ar gyfer dull newydd o ddyrannu grantiau. Elfen greiddiol wrth symud ymlaen fydd ystyried sut all partneriaid grant Prosiect 2050 hefyd ddenu cyllid o raglenni grant eraill Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i weithredu mewn ymateb i'r argymhellion hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach ar y gwaith hwnnw yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Grantiau**

Yn ystod 2021-22 eto, dyrannwyd grantiau i'n partneriaid er mwyn cynyddu'r defnydd o'n hiaith ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol. Mae'r cyllid hwn yn galluogi ein partneriaid i ddatblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn gymdeithasol.

Mae gwaith sefydliadau megis yr Urdd, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y mentrau iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol oll yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Yn 2021-22, rhoddwyd grant o dros £4m i Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, y mentrau iaith, yr Urdd a'r rhwydwaith o bapurau bro i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd 2021-22 yn parhau'n gyfnod anodd i nifer o'n partneriaid wrth iddynt golli incwm yn sgil gorfod gohirio digwyddiadau oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, llwyddodd y sefydliadau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu. Bu'r sefydliadau'n dal i arloesi mewn cyfnod heriol gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio sy'n siŵr o barhau pan fydd y pandemig wedi hen fynd heibio:

- Trefnodd y mentrau iaith gyfanswm o 1,755 o weithgareddau ar-lein, gyda 70,724 yn ymuno neu'n cymryd rhan, a 4,090 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gyda 76,517 yn mynychu.
- Cafodd Tafwyl, gŵyl Gymraeg Menter Caerdydd, ei chynnal ar-lein gan ddenu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r byd. Bu 39,700 o bobl yn gwylio a gwrando gan gynnwys cynulleidfaoedd o'r Unol Daleithiau, Japan, yr Iseldiroedd, Sbaen a Ffrainc i enwi dim ond rhai.
- Fe wnaeth tua hanner y papurau bro sy'n derbyn grant gyhoeddi'n ddigidol yn ystod y cyfnod clo, a hynny naill ai drwy gyfrwng prosiect Bro 360 neu ar eu liwt eu hunain.
- Fe wnaeth Merched y Wawr gynnal 1,104 o weithgareddau ar-lein, gyda 13,560 yn ymuno neu'n cymryd rhan, a 2,908 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gyda 69,483 yn mynychu.

**Eisteddfod yr Urdd**

Unwaith eto, roedd rhaid i Urdd Gobaith Cymru ohirio Eisteddfod yr Urdd 2021 a chynnal Eisteddfod T yn ei le. Fel rhan o'r ŵyl hon, cymerodd 12,000 o gystadleuwyr ran mewn cystadlaethau traddodiadol fel corau a chanu cerdd dant, yn ogystal â nifer o gystadlaethau arloesol fel *lip sync*, dynwared a sgetsys i'r teulu cyfan. Roedd yn gyfle i dynnu pawb ynghyd, boed yn Eisteddfodwyr profiadol neu beidio, i fwynhau ein diwylliant mewn modd hwyliog.

Roedd hi'n hyfryd gweld Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn cael ei chynnal ar faes ym mis Mai 2022. Yn sgil ymrwymiad yn ein *Rhaglen Lywodraethu*, darparwyd mynediad am ddim i'r maes er mwyn cynnig cyfle i bawb gael mwynhau arlwy amrywiol yr Eisteddfod i ddathlu canmlwyddiant y sefydliad. Byddwn yn cynnwys diweddariad pellach ar yr Eisteddfod honno yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Chwaraeon yr Urdd**

Mae'r Urdd yn derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru bob blwyddyn. Dros gyfnod y pandemig, cynyddodd Chwaraeon Cymru ei fuddsoddiad i gefnogi gwaith yr Urdd i ddefnyddio pŵer yr iaith Gymraeg i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a'u hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd o'r naill wythnos i'r llall ac yn y pen draw, gydol oes.

Mae'r gyllideb yn parhau i gael ei defnyddio i ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ar draws amrywiol chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg ac aml-sgiliau, gan gyfrannu at les cyfannol y plant drwy ddatblygiad Llythrennedd Corfforol.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Gydag Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion wedi'i gohirio am flwyddyn arall, roedd Eisteddfod AmGen 2021 yn ddatblygiad o'r hyn a gafwyd yn 2020, gydag elfen gref o gystadlu'n rhan o'r ŵyl. Roedd yr arlwy'n debycach i Eisteddfod 'go iawn'

gyda defnydd mwy eang o is-bafiliynau a’r rhaglen yn arwain y gwyliwr yn naturiol drwy gyfrwng y we, Radio Cymru ac S4C, i gael blas ar wahanol sesiynau. Roedd yr ŵyl yn bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod a’r darlledwyr gyda chydweithio arbennig drwy gydol yr wythnos a’r cyfnod cynllunio. Gyda phwyslais ar dyfu’r gynulleidfa ar YouTube, roedd dros 35% yn fwy o ‘sgriniau’ yn gwylio yn 2021, a’r gynulleidfa ar YouTube wedi mwy na dyblu wrth gymharu 2020 gyda 2021. Fe wnaeth yr argraffiadau a’r ymgysylltu ar draws platfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd gynyddu yn ystod 2021. Cynhaliwyd Eisteddfod fendigedig ar faes unwaith eto yn Nhregaron ym mis Awst 2022 – byddwn yn cynnwys diweddariad ar yr Eisteddfod honno yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siaradwyr Cymraeg newydd**

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg newydd ddefnyddio’u sgiliau mewn cymunedau, trwy’r cynllun “Cefnogi Dysgwyr”.

Mae’r Ganolfan yn cydlynu cynllun ‘Siarad’ er mwyn cynnig cefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol. Nod y cynllun yw magu hyder dysgwyr drwy ddarparu cyfleoedd am sgwrs anffurfiol.

Mae’r Ganolfan hefyd yn gweithredu cynllun “Mwynhau’r Gymraeg” mewn partneriaeth â’r mentrau iaith i sicrhau bod siaradwyr newydd yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau’r Mentrau.

**Dydd Miwsig Cymru**

Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru (DMC) am y seithfed tro ar 4 Chwefror 2022. Trefnwyd cyfres o 5 gig gyda Chlwb Ifor Bach gyda’r nod o’u cynnal ar y diwrnod ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19, penderfynwyd eu cynnal ar hyd mis Mawrth yn ei gyfanrwydd. Trefnwyd y gigs mewn lleoliadau traddodiadol er mwyn ceisio annog pobl i gefnogi’r lleoliadau yn dilyn cyfnod anodd y pandemig.

Ers y dechrau, nod ymgyrch genedlaethol DMC yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa newydd, ond mae hyn wedi datblygu i gydnabod pwysigrwydd annog digwyddiadau cymunedol lle gall pobl ddefnyddio’r Gymraeg. Gyda hynny mewn olwg, cynhaliwyd prosiect peilot gyda Pyst, sef cynllun mentora pobl ifanc i ddysgu trefnu digwyddiadau ar eu pennau eu hunain. Yn sgil y cynllun, trefnwyd taith o amgylch Cymru gyda Chlwb Ifor Bach.

Cynhaliwyd y cynllun peilot yng Nghaerfyrddin mewn cydweithrediad â Menter Gorllewin Sir Gâr a’r Urdd. Trefnwyd pedair sesiwn ar gyfer pobl ifanc yr ardal yng nghwmni pobl sy’n gweithio yn y sector cerddoriaeth fyw, er mwyn dysgu sut i fynd ati i drefnu digwyddiadau cerddoriaeth byw. Ond oherwydd effaith COVID-19, bu oedi a chynhaliwyd y gig yn y pen draw ar 24 Mehefin 2022.

Mae’r cynllun peilot wedi dangos bod pobl ifanc yn awyddus i drefnu digwyddiadau cerddoriaeth byw ac wedi’n cynorthwyo i adnabod y rhwystrau a’r heriau y mae gofyn eu datrys er mwyn gallu trefnu rhagor o ddigwyddiadau yn y

dyfodol. Y nod yw y bydd hyn yn arwain at drefnu mwy o gigs cymunedol – mae hyn yn allweddol er mwyn cynyddu ymwneud pobl ifanc â'r Gymraeg a'u hymwybyddiaeth ohoni fel iaith fyw. Mae hefyd yn fodd o feithrin hyrwyddwyr cerddoriaeth y dyfodol ac o gynnig llwyfan cynnar i annog artistiaid newydd lleol.

Dros y cyfryngau cymdeithasol, cafodd hashnodau Cymraeg a Saesneg DMC eu defnyddio 10,697 o weithiau eleni – sydd wedi cynyddu o 9,868 yn 2020. Defnyddiwyd yr hashnodau gan fusnesau ar draws y DU, cyrff llywodraethol, grwpiau cymunedol, busnesau mawr, cymunedau o Gymry dramor, a sefydliadau cerddoriaeth a diwylliannol gan greu ac atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac i sicrhau cyfalaf cymdeithasol yn Gymraeg.

Roedd eitemau ar raglenni teledu BBC Newsround, ITV Wales, BBC 6 Music, BBC Radio Wales, Radio Cymru a Radio Cymru 2.

Cyhoeddwyd erthyglau cadarnhaol am yr ymgyrch, cerddoriaeth Gymraeg a sefyllfa'r iaith yn NME, The Guardian, MailOnline a nifer o bapurau lleol gan gynnwys y Carmarthen Journal, y Llanelli Herald a'r Wrexham Leader.

Yn dilyn llwyddiant cynllun "Llwyfan" yn 2021, dyrannodd Lywodraeth Cymru grant am yr eildro i gwmni allanol yn ystod y cyfnod adrodd i barhau i weithio i helpu pobl ifanc i ymddiddori yn y cyfryngau cyfrwng Cymraeg ac i ddysgu sgiliau recordio, golygu a chyhoeddi podlediadau a rhaglenni radio.

Mae'r prosiect yn cyfuno'r elfennau hyn ar blatfform sy'n gwasanaethu dysgwyr 7-11 mlwydd oed gan ganolbwyntio yn y tymor byr ar Ddydd Miwsig Cymru a gofynion y Siarter Iaith. Bwriad y prosiect yw cryfhau ac atgyfnerthu sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg pobl ifanc wrth iddynt ddysgu am sgiliau aml-gyfryngol. Bydd hefyd yn cysylltu gyda chartrefi'r disgyblion drwy ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau allgyrsiol sy'n apelio at y teulu cyfan er enghraifft cwis i'r teulu er mwyn estyn y Gymraeg i gartrefi ein pobl ifanc ledled y wlad.

# Thema 3: Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun

Nod y thema hon yw cefnogi'r camau a amlinellir yn themâu un a dau uchod, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall ein hiaith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

## 9. Y gymuned a'r economi

Mae rhaglen Arfor yn rhan o'r *Cytundeb Cydweithio* rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Ariannwyd rhaglen wreiddiol Arfor yn sgil cytundeb cyllidebol yn y Bumed Senedd gyda Phlaid Cymru i dreialu dulliau arloesol o hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes, a gwydnwch cymunedol tra'n cefnogi'r Gymraeg. Roedd yn targedu cymorth yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ac fe'i darparwyd dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2019-20 a 2020-21 gan y pedwar awdurdod lleol sy'n gweithio ar brosiectau lleol a chydweithredol. Fel rhan o'r rhaglen beilot wreiddiol, neilltuwyd cyllid i werthuso'r gwaith a wnaed dros y ddwy flynedd. Cyhoeddwyd y gwerthusiad annibynnol ym mis Tachwedd 2021.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar gynigion i ddatblygu rhaglen Arfor 2 er mwyn adeiladu ar brofiad a gwerthusiad y rhaglen flaenorol. Bydd pwyslais ar adeiladu ar waith neu weithgaredd perthnasol sydd eisoes yn bodoli er mwyn creu gwaith a chefnogi'r iaith.

### Amaethyddiaeth

Mae busnesau fferm a'r sector amaethyddol ehangach yn parhau i fod yn gyflogwr allweddol yng nghefn gwlad Cymru, yn enwedig yng nghadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae sicrhau dyfodol llewyrchus i'r sector amaethyddiaeth a'r gyflogaeth gysylltiedig y mae'n ei chynnig yn hanfodol i gynnal yr iaith yn ein cymunedau gwledig.

Drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-20 (RDP), sy'n rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2023, rydym wedi parhau i gefnogi ffermwyr ledled Cymru i adeiladu gwydnwch yn eu busnesau, gan gefnogi gweithgaredd sy'n gwella eu perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rydym wedi parhau i ddatblygu a mireinio ein cynigion hirdymor ar gyfer cymorth amaethyddol yng Nghymru, gan adeiladu ar gyhoeddi Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) yn 2021 a chydnabod pwysigrwydd cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy a ffermydd teuluol yng Nghymru. Mae'r rhain yn themâu, gan gynnwys pwysigrwydd cymunedau Cymraeg eu hiaith, sy'n parhau'n ganolog wrth i ni gefnogi ffermwyr yn y dyfodol.

Mae ymgysylltu â'r gymuned amaethyddol yn parhau'n hollbwysig ac yn dilyn cyhoeddi amlinelliad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yr haf hwn, rydym yn dechrau

ar gyfnod pellach o gyd-ddylunio cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol. Fel sylfaen i'r dull newydd, byddwn yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn ystod hydref 2022.

Er mwyn rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth i ni ddatblygu cymorth a thrawsnewid o'r Undeb Ewropeaidd i gyllidebau domestig y dyfodol, estynnwyd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn 2022.

**Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**

Mae cefnogi hyfywedd cymunedau daearyddol â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ynddynt yn un o flaenoriaethau strategol *Cymraeg 2050*. Mae'r cymunedau Cymraeg eu hiaith hyn yn wynebu heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol niferus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wledig eu natur ac yn dibynnu gan fwyaf ar economïau yn y sector cyhoeddus, amaeth a thwristiaeth, lle y mae tueddiadau cryf o ran mewnfudo ac allfudo.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae rhai o'r cymunedau hyn wedi gweld galw mawr i am eiddo i'w ddefnyddio fel ail gartrefi. Mewn ardaloedd lle y mae dwysedd ail gartrefi yn uchel, bu pryderon ynghylch materion yn ymwneud â fforddiadwyedd a dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus.

Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, cynhaliwyd ymgynghoriad ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg drafft (WLCHP) yn ystod gaeaf 2021 ac rydym yn anelu at gyhoeddi'r cynllun terfynol yn ystod yr hydref 2022.

Bwriad y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw cynnwys ystod eang o ymyraethau sy'n mynd i'r afael â materion economaidd, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol. Y nod yw grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb a chanfod datrysiadau eu hunain i faterion sy'n bygwth cynaladwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

Bydd ymyraethau'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cynnwys:

- Anogaeth i rymuso cymunedau i sefydlu mentrau cydweithredol a chynlluniau tai sydd wedi'u harwain gan y gymuned. Rydym am roi cefnogaeth i gymunedau sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu diogelu. O ganlyniad, ers mis Ebrill 2022, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Cwmpas i sefydlu cynllun 'Perthyn' sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol i gymunedau sydd am sefydlu mentrau cydweithredol newydd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig gwerth ychwanegol i'r gefnogaeth prif ffrwd sydd eisoes yn cael ei darparu gan Cwmpas ar gyfer creu mentrau cymdeithasol a Chynllun Cymunedau'n Creu Cartrefi.
- Sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r farchnad dai agored.
- Sefydlu cynllun Cyfle Teg i bobl leol gan weithio'n agos gyda darparwyr eiddo i godi ymwybyddiaeth o ba gamau y gallant eu cymryd i gefnogi eu cymunedau lleol.
- Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, cyhoeddwyd ein bod yn lansio Comisiwn Cymunedau Cymraeg dan gadeiryddiaeth Dr Simon Brooks. Bydd y

Comisiwn yn cynnal astudiaeth fanwl o sefyllfa'r Gymraeg gan gyflwyno adroddiad ac argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru ymhen dwy flynedd.
- Sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol gwirfoddol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg yn gymunedol ac ymysg newydd-ddyfodiaid.
- Byddwn yn ehangu rôl y Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith Gymraeg i gynnwys materion sy'n gysylltiedig â thai.
- Byddwn yn datblygu ac yn ymchwilio ymhellach i'r materion sy'n gysylltiedig â diogelu enwau lleoedd Cymraeg. Ceir rhagor o fanylion am y maes hwn yn adran enwau lleoedd yr adroddiad hwn.

**Fforddiadwyedd, Ail Gartrefi a'r Gymraeg**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg er enghraifft:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.
- Ymchwilio i ddichonolrwydd cyflwyno morgeisi awdurdodau lleol.

Mae sylfeini polisi trawsbynciol sylweddol a chynnydd wedi cael eu datblygu yn unol â dull gweithredu triphlyg y llywodraeth yng nghyswllt ail gartrefi.
Rydym wedi ymestyn pwerau i awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn i godi cyfradd premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi a thai gweigion – o 1 Ebrill 2023, bydd y ffigur uchaf y gall awdurdodau lleol ddewis ei gymhwyso yn codi o 100% i 300%.

Rydym wedi newid y rheolau sy'n ymwneud â llety gwyliau tymor byr – sy'n golygu i fod yn gymwys am gyfraddau annomestig (yn hytrach na'r dreth gyngor), bydd yn rhaid i weithredwyr llety gwyliau tymor byr for ar gael i osod am o leiaf 252 diwrnod mewn unrhyw gyfnod 12 mis, ac hefyd yn gosod y llety am o leiaf 182 diwrnod yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau bod perchenogion a'u gwesteion yn gwneud cyfraniad teg i'r gymuned leol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud newidiadau sylweddol i'r system gynllunio. Bydd rheoliadau'n cyflwyno tri dosbarth defnydd cynllunio newydd: prif breswylfa, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Yna, gall awdurdodau cynllunio lleol, pan fydd ganddynt dystiolaeth a phan fyddant wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ei gwneud yn ofynnol i berchenogion eiddo geisio caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd rhwng y dosbarthiadau hyn. Byddwn hefyd yn cyflwyno newidiadau i

bolisi cynllunio cenedlaethol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr sydd mewn cymunedau lleol yn well.

Rydym hefyd wedi ymgynghori ar wneud newidiadau i'r dreth trafodiadau tir. Ceir dau set o gyfraddau ar gyfer eiddo preswyl – y prif gyfraddau a'r cyfraddau uwch. Caiff y cyfraddau uwch eu codi o dan yr amgylchiadau hyn: pan fydd prynwr wedi prynu eiddo ac felly'n berchen ar fwy nag un eiddo preswyl, gan gynnwys ail gartrefi ac felly'n talu 4 pwynt canran yn uwch na'r prif gyfraddau. Dyma'r cyfraddau uchaf ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yn y DU.

Wedi'r ymgynghoriad, rydym ni nawr hefyd wrthi'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol lle gallant wneud cais am gyfraddau treth trafodiadau tir uwch ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau i'w hardal leol.

### Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd

Rydym wedi sefydlu peilot yn Nwyfor i brofi nifer o ymyraethau ac i asesu eu heffeithiolrwydd o ran rheoli ail gartrefi a'u heffaith ar fforddiadwyedd. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio'n agos gyda phartneriaid megis Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Grŵp Cynefin. Eisoes mae dau grŵp wedi'u sefydlu i orchwylio gwaith y peilot sy'n cynnwys grŵp gweithredol a grŵp strategol.

Rhan allweddol o'r peilot yn Nwyfor fydd comisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd yr ymyraethau. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ddysgu gwersi a rhannu arferion da gydag ardaloedd eraill sy'n wynebu heriau cyffelyb.

## 10. Diwylliant a'r Cyfryngau

Mae pob un o'r cyrff a noddir gennym yn y sector diwylliant a chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi ein targed i gynyddu defnydd iaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac maent yn rhagweithiol yn eu hymateb i'r polisi. Mae annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y cyrff a noddir gennym, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau da gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydym eisiau gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy eang mewn diwylliant poblogaidd ym mhob un o'i gyfryngau celfyddydol ac mewn llenyddiaeth, theatr, ffilm a theledu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan fodelau rôl fel mabolgampwyr, cerddorion, actorion, a ffigurau a sefydliadau amlwg eraill yn fodd i godi statws y Gymraeg fel iaith fyw.

Mae pwysigrwydd ein perthynas gyda'r sefydliadau a phartneriaid hyn yn allweddol i'n hetifeddiaeth a'n lles.

## Diwylliant

### Brand Cymru

Eleni eto rydym wedi parhau i gefnogi busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Fe wnaethom ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw i

hyrwyddo Cymru ledled y byd hefyd. Yn benodol, gwnaed hyn drwy gyfrwng ymgyrch Gŵyl Dewi, wrth i ni arddangos y gorau o Gymru i'r byd ar draws y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r ymgyrch Pethau Bychain. Gwnaed hyn drwy gydweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Cymdeithas Pêl-droed Cymru a'r Urdd.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales, ac wedi cael ei defnyddio'n helaeth i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Mae'r iaith yn ysbrydoli elfennau creiddiol o'r brand, er enghraifft y ffont (sydd wedi ennill gwobr aur yng Ngwobrau Dylunio Ewrop).

Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau croeso i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn ganolog i hyn. Mae'r Gymraeg hefyd wedi cael ei defnyddio fel un o'n prif ymgyrchoedd twristiaeth – Addo – i annog pobl i fod yn gyfrifol tra'n ymweld â Chymru. Mae Addo yn gofyn i ymwelwyr a phreswylwyr wneud addewid i Gymru, sy'n cynnwys gofyn i bobl barchu a dathlu ein hiaith a'n diwylliant unigryw.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

### Gweithgarwch noddi

Rydym yn parhau i bwysleisio a hyrwyddo pwysigrwydd cyfoeth diwylliant cyfrwng Cymraeg ac yn wir pwysigrwydd clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein gweithgarwch noddi. Rydym yn parhau gyda'r nod o sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol.

Drwy ein gweithgarwch noddi, rydym yn cydweithio i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math, gan gynnwys archwilio'r rhyngberthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw.

## Treftadaeth

### Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Mae'r Amgueddfa yn gosod y Gymraeg wrth galon popeth a wna er mwyn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig a chyfleoedd pwrpasol i ymwelwyr ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg. Dyma flas ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn adrodd:

- Datblygu rhaglen dysgu cyfunol dwyieithog i holl ysgolion Cymru yn unol â'r cwricwlwm newydd, gan ddechrau normaleiddio'r iaith drwy raglenni megis Gŵyl Hanes Cymru i Blant, Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.
- Dathlu'r Gymraeg fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes, gan weu ymwybyddiaeth o hanes a datblygiad yr iaith i arddangosiadau parhaus er enghraifft modiwl Cymru... brwydr yr iaith yn Sain Ffagan.

- Hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob safle gyda'r canlynol yn uchafbwyntiau: Yfory Trwy Lygaid Ddoe yn Sain Ffagan, arddangosfa Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes a deithiodd i nifer o amgueddfeydd a lleoliadau eraill, Arddangosfa Gobaith yn Amgueddfa Wlân Cymru a Trawsnewid yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
- Datblygu rhaglen Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau – gan gynnwys datblygu cyfrif Instagram dwyieithog Bloedd AC a chylchgrawn celfyddydol Cynfas, ac arbrofi gyda phlatfform TikTok yn Gymraeg.
- Cynhyrchu adnoddau addysg digidol helaeth eleni eto sydd ar gael ar Hwb ac ar wefan yr Amgueddfa, gan gynnwys adnoddau ar gyfer oedran cyn-ysgol, y cyfnodau allweddol ac oedolion.
- Datblygu dwy rithdaith (Google Expedition) yn Gymraeg ar gyfer Tai Teras Rhyd-y-car yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Rhithdaith Big Pit oedd y gyntaf yn Gymraeg ac fe'u cynhyrchwyd drwy gydweithio ag adran Celfyddydau a Diwylliant Google.
- Mae uchafbwyntiau'r rhaglen ddigwyddiadau dwyieithog yn cynnwys sesiynau Amgueddfa Dros Nos: Gartref. Cafodd glod uchel yng nghategori'r Gymraeg yng ngwobrau Cardiff Life a chafwyd tystiolaeth fod teuluoedd o Abu Dhabi i Adelaide wedi cymryd rhan yn Gymraeg a manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r iaith drwy'r digwyddiadau digidol.
- Datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog newydd er mwyn gallu cofnodi dewis iaith, casglu data defnydd a datblygu darlun cliriach o anghenion ac arferion cynulleidfaoedd Cymraeg er mwyn gwella'u profiadau.
- Gweithio gyda chwmni rhyngwladol, Kotobee, i gyfieithu a lansio rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd ilyfrau sef un o brif allbynnau addysg yr Amgueddfa. Dyma'r rhyngwyneb cyntaf o'i math yn y Gymraeg.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn) yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n ymddiddori yn hanes a threftadaeth adeiledig Cymru.

Un o'r gwasanaethau ar-lein hyn yw'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, sy'n cael ei chynnal gan y Comisiwn ar ran Gweinidogion Cymru. Adnodd arloesol sy'n cynnwys cannoedd ar filoedd o enwau lleoedd a gasglwyd o fapiau hanesyddol a ffynonellau eraill yw'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Mae'n cynnig cipolwg hynod ddiddorol ar ddefnydd tir, archaeoleg a hanes Cymru.

Mae'n cofnodi enwau, yn ogystal â ffurfiau a sillafiadau amgen, ar gyfer aneddiadau, eiddo, heolydd, llwybrau, afonydd a nodweddion eraill di-ri a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd.

Mae'r Rhestr hon yn fwy na chofnod defnyddiol o enwau lleoedd o'r gorffennol, mae hefyd yn adnodd pwysig at y dyfodol. Un o'i phrif amcanion yw gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfoeth yr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel elfennau o'n treftadaeth ddiwylliannol ehangach. Wrth i ymwybyddiaeth pobl o enwau lleoedd hanesyddol a'u pwysigrwydd gynyddu,

byddant heb os yn eu gwerthfawrogi i raddau mwy, ac yn parhau i'w defnyddio nawr ac yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, sefydlodd y Comisiwn grŵp gorchwyl a gorffen i wneud argymhellion ar sut i wella Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, ei hyrwyddo'n well a chodi ymwybyddiaeth ohoni.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran Seilwaith Ieithyddol yr adroddiad hwn.

Er mwyn dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, crëwyd cyfres o fideos i hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y Comisiwn, ac uchafbwynt y dathliad oedd cyhoeddi eu Polisi Cymraeg yn y Gweithle 2021-22.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mae defnydd ar-lein o'r Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r Llyfrgell gynnal mwy a mwy o weithgareddau a chyfarfodydd rhithiol.

Yn ystod 2021-22, cafodd defnyddwyr y we ddarganfod casgliadau digidol y Llyfrgell Genedlaethol ar lwyfan Google Arts and Culture, gan fwynhau'r 190 o eitemau a deg o straeon digidol yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwefan Google Arts and Culture yn rhoi llwyfan i dros 2,000 o bartneriaid o bob cwr o'r byd i sicrhau bod celf a diwylliant ar gael i bawb ble bynnag y bônt. Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw'r sefydliad treftadaeth cenedlaethol cyntaf yng Nghymru i rannu ei chasgliadau a hyrwyddo'r Gymraeg ar y llwyfan hwn.

Mae prosiect WiciLleoedd wedi bod yn cyfuno Wikidata ac OpenStreetMap i wella gwasanaethau mapio Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod gan gyrff a chwmnïau fodd o ddangos a datblygu mapiau / gwasanaethau teithio yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Drwy adeiladu ar waith Mapio Cymru i ddatblygu map Cymraeg o Gymru, mae'r prosiect wedi defnyddio technolegau torfol a data agored Wikidata i alluogi defnyddwyr i gyfranogi yn ogystal â gweld ac archwilio map cyfoes o Gymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Llyfrgell wedi annog a chefnogi'r cyhoedd i gyfrannu miloedd o enwau Cymraeg am adeiladau hanesyddol ac i greu erthyglau Wicipedia Cymraeg am eu cymunedau lleol. Ychwanegwyd dros 5,000 o enwau lleoedd Cymraeg at fap Mapio Cymru gan ddefnyddio labeli Cymraeg o Wikidata.

Ers y cyfnod clo, mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell yn darparu gwasanaeth hybrid Cymraeg a dwyieithog i ysgolion sy'n cynnwys gweithdai rhithiol, gwaith estyn allan a gweithdai yn adeilad y Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell wedi datblygu cynllun prentisiaethau 'sgiliau prin' ar gyfer pobl ifanc dwyieithog er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad unigolion sy'n rhugl yn Gymraeg i ymgymryd â swyddi yn y dyfodol ble mae gofyn am sgiliau arbenigol. O wneud hyn, y nod yw gwneud yn siŵr na cheir prinder unigolion cymwys dwyieithog i lenwi'r swyddi hyn yn y dyfodol.

Y Gymraeg yw iaith weinyddol a gweithredol mewnol y sefydliad a thrylwyr ddwyieithog yn ei hymwneud â'r cyhoedd.

**Chwaraeon Cymru**

Mae Chwaraeon Cymru’n rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, sef grŵp o sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg). Mae’r grŵp wedi datblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb ar y cyd ac wedi ymrwymo i’w rhoi ar waith, bob un.

Mae tudalennau cyfryngau cymdeithasol Chwaraeon Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol wrth gysylltu gyda phobl ifanc drwy gyfrwng dewis iaith. O ran cymorth penodol, rhoddwyd Cronfa Be Active Wales (Cronfa Chwaraeon a Gweithgareddau Egnïol – Cymru) ar waith yn gynnar yn y pandemig. Y bwriad oedd helpu a gwarchod y sefydliadau chwaraeon â chymorth brys, ac yna, yn gynyddol, eu helpu i symud ymlaen i sefyllfa fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

O’r arian a neilltuwyd gan y Gronfa, dyrannwyd arian i 40 o sefydliadau a oedd yn darparu gweithgaredd chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a 39 o sefydliadau a oedd yn defnyddio’r Gymraeg yn rhannol. Drwy’r cymorth ariannol a roddwyd i'r 79 sefydliad hyn yn ystod 2021-22, darparwyd 756 o weithgareddau cyfrwng Cymraeg gan 412 hyfforddwr.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Yn ystod 2021-22, mae’r Cyngor wedi gweithio tuag at, ac wedi ennill cydnabyddiaeth swyddogol “Cynnig Cymraeg” y Comisiynydd Iaith. Nod y cynllun yw sicrhau bod yna ddatblygiadau bach a chyson i wasanaethau Cymraeg. Drwy hyrwyddo’r gwasanaethau i’r cyhoedd, mae’n darparu gwell gwasanaethau Cymraeg ac yn cynyddu defnydd ohonynt.

Lansiwyd Pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Nod y cynllun yw annog sefydliadau o fewn y sector celfyddydol i ystyried sut i hybu eu gweithgaredd yn Gymraeg.

Mae eu Gwasanaeth Noson Allan hefyd wedi sefydlu grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg. Drwy weithio gyda’r fenter iaith leol a hyrwyddwyr cymunedol eraill sy’n dymuno cynnal perfformiadau yn Gymraeg, cynigir cyfleoedd i drigolion Cymru fwynhau diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.

Mae’r Hwylusydd Iaith Gymraeg yn gweithio gyda Swyddogion Arweiniol i nodi anghenion a chymorth pellach sydd ei angen ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru. Mae ymchwil i lwybrau datblygu’r Gymraeg o fewn y celfyddydau ar gyfer gweithwyr creadigol wedi’i gymeradwyo ac ar gael ar GwerthwchiGymru ers mis Ionawr.

Mae partneriaeth yn bodoli rhwng y Cyngor Celfyddydau a Theatr Genedlaethol Cymru i gydweithio gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynllunio darpariaeth hefyd. Nod y gwaith yw cynorthwyo’r Ganolfan i gynllunio a darparu cyrsiau priodol at ddefnydd Iaith Gwaith i weithwyr llawrydd y celfyddydau.

Yn dilyn trafodaethau gydag S4C a Ffilm Cymru, mae iteriad pellach o'u rhaglen datblygu sector trawsbynciol Labordy bellach yn fyw, yn canolbwyntio ar gynhyrchwyr sydd eisiau gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Dewiswyd pump o gyfarwyddwyr i gymryd rhan yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Y Cyfryngau**

Mae gwasanaethau darlledu a'r cyfryngau yn yr iaith Gymraeg yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran cyflawni ein nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd darpariaeth S4C a Radio Cymru ac wedi gweithio gydag S4C a BBC Cymru i gyflawni ein dyheadau ar gyfer ein hiaith. Yn 2021, ymunodd Cymru Greadigol Wales mewn Memoranda Cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda'r BBC ac S4C. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys ffocws ar gefnogi cynnwys Cymraeg. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth S4C yn arbennig yn cynnwys ffocws penodol ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg i gefnogi'r uchelgais a nodwyd yn *Cymraeg 2050* ac ymrwymiad i gefnogi cynhyrchu ffilmiau Cymraeg.

Fe wnaethom barhau i godi ystod o faterion yn gyson gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom dros y cyfnod hwn. Rydym yn pwysleisio swyddogaeth hanfodol darlledu effeithiol o ran cynnal a thyfu'r iaith Gymraeg wrth ddwyn gwaith ymlaen mewn ymateb i adroddiad Ofcom Sgrin Fach; Trafodaeth Fawr ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dechreuodd gwaith hefyd ar symud ymlaen â'r ymrwymiadau o ran darlledu a'r cyfryngau a nodir yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru. Mae hyn yn cynnwys camau i archwilio'r posibilrwydd o greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol ar gyfer Cymru a chefnogi fframwaith ar gyfer Cymru sy'n cyflawni ein hanghenion a'n huchelgais ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi cwmnïau gyda chyllid datblygu y bwriedir iddo gael ei gyflawni yn y Gymraeg, wedi cefnogi cyllido cynyrchiadau dwyieithog a drwy Sgrin Cymru, wedi darparu cymorth o ran lleoliadau i gynyrchiadau yn yr iaith Gymraeg.

**Cyngor Llyfrau Cymru**

Mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau bod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau Cymraeg i oedolion a phlant.

Yn ystod 2021-22, cyhoeddwyd dros 200 o lyfrau Cymraeg ac 16 o gylchgronau print a digidol i oedolion a phlant.

Mae 1,139 o e-lyfrau Cymraeg ar ffolio.cymru bellach – y rhan fwyaf yn llyfrau plant a phobl ifanc. Mae cyhoeddi e-lyfr ochr yn ochr â'r llyfr print yn arfer gan y rhan fwyaf o gyhoeddwyr erbyn hyn.

Roedd Golwg 360 yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Llyfrau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y cyfartaledd misol o ddefnyddwyr

gwe tua 75,000, yr argraffiadau ar Twitter dros 550,000 a’r ymwneud â’r deunydd ar Facebook tua 4,500.

Parhawyd i weithio i wireddu argymhellion Adroddiad Siwan Rosser (2017). Yn gyffredinol, roedd 48% o’r llyfrau plant a phobl ifanc yn llyfrau gwreiddiol. Cefnogwyd ffyrdd gwahanol o ysgrifennu ar gyfer oedolion ifanc a chyhoeddwyd y tair cyfrol gyntaf yng nghyfres Gorau o’r Goreuon (argraffiadau newydd o hen deitlau sy’n parhau’n berthnasol a safonol yn y cyfnod hwn).

Roedd amrywiaeth yn bwnc canolog i drafodaethau’r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig felly amrywiaeth o ran hil ac ethnigrwydd yng nghyd-destun y Gymraeg. Cynhaliwyd arolygon o’n cyhoeddiadau a gwnaed argymhellion i’r cyhoeddwyr ar gamau y gellid ac y dylid eu cymryd i sicrhau amrywiaeth yn y llyfrau a’r cylchgronau a noddir. Roedd un arolwg sydyn yn dangos bod tua 70% o lyfrau plant bach a noddwyd yn cynnwys lluniau o gymeriadau o gefndiroedd ethnig amrywiol. Mae canfod a datblygu siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd ethnig amrywiol i fod yn awduron hyderus yn parhau’n flaenoriaeth mewn trafodaethau gyda phartneriaid.

Cefnogwyd nifer o lyfrau newydd a oedd â chynnwys amrywiol ac yn arbennig fe noddwyd Y Lolfa i weithio ar brosiect Y Pump – lle bu pump awdur yn cydweithio gyda phum cyd-awdur i lunio pump nofel ar gyfer oedolion ifanc a oedd â chynnwys perthnasol i bobl o gefndiroedd amrywiol. Ystyriwyd hwn yn brosiect llwyddiannus iawn ac yn wir, daeth yn fuddugol yng Ngwobr Llyfr y Flwyddyn Llenyddiaeth Cymru o dan ddau gategori: Gwobr Barn y Bobl ac Enillydd y Categori Plant a Phobl Ifanc.

Parhawyd i gyhoeddi llyfrau ar gyfer dysgwyr – mae cyfanswm o 33 yng nghyfres Amdani bellach. Caniataodd arian Cynulleidfaoedd Newydd Llywodraeth Cymru i’r cyfan gael eu trosi’n e-lyfrau. Diweddarwyd y catalog o’r llyfrau hyn a pharatowyd catalog newydd o lyfrau addas i ddysgwyr hyderus, ‘Beth ga’i ddarllen nesaf?’

Mae’r gwaith i ddenu cyhoeddwyr newydd i’r maes yn parhau. Mae Broga yn parhau ac O’r Pedwar Gwynt yn paratoi eu cyfrol gyntaf i oedolion. Mae’r Cyngor hefyd yn cefnogi rhai o’r cyhoeddwyr i ddatblygu eu rhaglen oedolion yn ogystal â gweld rhai o brif gyhoeddwyr Saesneg Cymru yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg a Chymreig.

Darparwyd gwybodaeth am lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ar ffurf Blwyddlyfr yn ogystal â rhestrau penodol i holl ysgolion a gwybodaeth ar dudalennau Hwb y Cyngor Llyfrau.

Derbyniwyd cyllideb sylweddol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn llyfr yn anrheg trwy gynllun #carudarllenysgolion. Yn ogystal â hyn, derbyniodd pob ysgol becyn o 50 llyfr yn anrheg ar gyfer llyfrgell yr ysgol. Mae banciau bwyd, hefyd wedi derbyn cyflenwad o lyfrau darllen er pleser Cymraeg fel rhan o'r ymgyrch.

Sicrhawyd bod deunydd dwyieithog ar gyfer ymgyrchoedd Sialens Ddarllen yr Haf a Diwrnod y Llyfr ar gael i ysgolion, siopau a llyfrgelloedd, yn ogystal â chefnogi cynnwys ar gyfer y gwefannau Cymraeg.

Roddwyd sylw cenedlaethol ar draws amrywiaeth o blatfformau i deitlau a gyrhaeddodd rhestr fer Gwobrau Tir Na n-Og.

Cynhaliwyd cystadlaethau darllen gydag ysgolion cynradd ledled Cymru er mwyn hyrwyddo darllen a thrafod llyfrau Cymraeg a threfnwyd nifer o ddigwyddiadau awduron digidol a wyneb yn wyneb gydag ysgolion.

Gweithiodd y Cyngor gyda chyhoeddwyr yng Nghymru i gynhyrchu a dosbarthu 21 o lyfrau plant ar iechyd meddwl a llesiant ar ffurf print ac yn ddigidol. Rhoddwyd copïau o'r llyfrau i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg drwy Gymru a chrëwyd adnoddau i gyd-fynd â'r llyfrau fel rhan o'r prosiect. Derbyniwyd arian ychwanegol i drefnu fersiynau llyfrau llafar o'r rhan fwyaf o'r llyfrau hyn yn ogystal a byddant yn ymddangos yn ystod 2022-23.

## 11. Cymru a'r byd ehangach

Rydym am ddangos i'r byd ein bod yn wlad amlieithog sy'n annog pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn dathlu bod ein hiaith yn cael ei siarad gan bobl o bob cefndir.

Ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gan aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol well cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, drwy gydol y cyfnod adrodd, buom yn cyfrannu at waith y Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol newydd. Cyhoeddwyd y Cynllun ar 7 Mehefin 2022, ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o brofiadau siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol, dysgu ohonynt ac ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol iddynt.

Sefydlwyd is-grŵp newydd i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd i ganolbwyntio ar faes cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae'r grŵp wedi dechrau ei waith ym maes hil ac ethnigrwydd er mwyn ein cefnogi gyda'n gwaith ar y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

### Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Yn ystod 2021-22, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi gweithio gyda chwmni *Say Something in Welsh* i ddatblygu adnodd digidol newydd drwy gyfrwng ieithoedd cyntaf ceiswyr lloches a ffoaduriaid fel nad oes angen Saesneg rhugl er mwyn dysgu Cymraeg. Mae'r cynllun hwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cyrraedd y gynulleidfa benodol gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a phrifysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfle pellach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddysgu Cymraeg ar gyrsiau sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar eu cyfer.

Mae partneriaeth y Ganolfan gyda'r Groes Goch yn parhau, er mwyn hwyluso cyfleoedd i rai ffoaduriaid a cheiswyr lloches barhau i ddysgu Cymraeg.

**Ysgol Gymraeg Llundain**

Rydym yn parhau i ddyfarnu grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

**Patagonia**

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg yn parhau i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym Mhatagonia yn yr Ariannin. Gweinyddir y prosiect drwy'r Cyngor Prydeinig, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, Cymdeithas Cymru Ariannin a Llywodraeth Cymru.

Gan y bu'r Ariannin ar gau i bawb nad oeddynt yn ddinasyddion y wlad am y rhan fwyaf o 2021-22, ni fu modd i athrawon o Gymru leoli eu hunain ym Mhatagonia ar gyfer blwyddyn academaidd yr Ariannin. Roedd hyn yn berthnasol i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgolion dwyieithog a'r rhai a gyflogir drwy Brosiect yr Iaith Gymraeg. O'r herwydd, y rhwydwaith tiwtoriaid lleol fu'n llwyr gyfrifol am y ddarpariaeth addysgu mewn ysgolion eleni.

Gwnaeth y rhwydwaith ymdrechion clodwiw i gyflawni'r her, gan fynychu sesiynau hyfforddi ar addysgu ar-lein, llwyfannau ar-lein, ac ar adnoddau ac apiau a ddarparwyd gan Gydlynwyr Addysgu Prosiect yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, bu problemau hefyd o ran yr amser addysgu ar gael iddynt, y ffaith nad oes modd iddynt gael eu harwain gan athrawon Cymraeg iaith gyntaf o Gymru a hefyd o ran y ffaith y gall darparu addysgu ar-lein i ddisgyblion cynradd ifanc fod yn anodd. Ni ellir gor-ddweud pwysigrwydd presenoldeb athrawon o Gymru yn yr ysgolion a'r cymunedau, yn nhermau'r addysgu ffurfiol ac anffurfiol a ddarperir ganddynt, gan gynnwys y methodolegau addysgu diweddaraf, cefnogaeth iaith Gymraeg i diwtoriaid lleol a digwyddiadau cymunedol.

Mae darpariaeth addysgu oedolion wedi parhau drwy diwtor wedi'i leoli yng Nghymru sydd wedi bod yn cynnal dosbarthiadau ar-lein ar gyfer disgyblion uwchradd ac oedolion ar bob lefel. Un enghraifft lwyddiannus fu'r gallu i ymestyn cyrhaeddiad y prosiect i gynnwys myfyrwyr o'r tu allan i'r dalgylch dysgu Cymraeg arferol, ac mae'r prosiect wedi denu oedolion newydd brwdfrydig fel dysgwyr ar-lein. Daeth y flwyddyn i ben gyda nifer fawr o fyfyrwyr sy'n oedolion yn sefyll arholiadau llafar ffug, llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i sefyll arholiadau swyddogol CBAC ym mis Mehefin 2022.

Agorwyd ffiniau'r Ariannin eto ar 31 Rhagfyr 2021 i rai nad ydynt yn ddinasyddion y wlad, ac o ganlyniad, bu modd ailddechrau'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg yn y wlad am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig drwy recriwtio i dri o leoliadau addysgu ym Mhatagonia. Yn ogystal â gallu addysgu wyneb yn wyneb, bydd modd iddynt ddefnyddio'r adnoddau a'r dechnoleg a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i wella'u haddysgu. Bydd y lleoliadau cyfredol yn eu lle hyd ganol mis

Rhagfyr 2022 gydag opsiwn posibl i barhau am flwyddyn academaidd gyflawn 2022/23.

**Cysylltiadau Rhyngwladol**

Mae swyddogion wedi bod yn parhau i roi lle blaenllaw i'r Gymraeg wrth weithredu'r Strategaeth Ryngwladol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da a chefnogi gwledydd sydd ag ieithoedd lleiafrifol ledled y byd.

**Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol**

Mae'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop gyfan sy'n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran Ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach (CRSS) ledled Ewrop. Mae aelodau'r NPLD yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â phrifysgolion a chymdeithasau.

Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau, gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop.

Yn sgil COVID-19, cyfarfod ar-lein wnaeth y Rhwydwaith yn ystod y cyfnod adrodd, a hynny er mwyn rhannu arfer da a phrofiadau yn gysylltiedig â'r heriau a'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil y pandemig. Edrychwn ymlaen at gynnal cynhadledd yr NPLD yng Nghymru yn ystod hydref 2022.

**Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Ni sy'n cadeirio grŵp gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae sefyllfa'r holl ieithoedd a gynrychiolir gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn amrywio'n fawr (Cymraeg, Cernyweg, Gaeleg yr Alban, Sgoteg, Manaweg, Sgoteg Wlster, Gwyddeleg, Guernésiais a Jèrriais) ond mae ganddynt lawer iawn yn gyffredin hefyd. Rydym wedi parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i drafod, i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i deithio ar draws yr aelod-wladwriaethau i ddysgu ac i rannu arferion da ond daeth yr holl deithio i ben yn sgil y pandemig. Yn lle hynny, cyfarfu'r Grŵp ar-lein gan wahodd cyfres o siaradwyr gwadd i ysgogi trafodaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, trefnodd y grŵp weminar ym maes ieithoedd a'r blynyddoedd cynnar. Cynhaliwyd y gweminar yn ystod mis Mehefin 2021 ac roedd yn gyfle i swyddogion polisi, siaradwyr gwadd a rhanddeiliaid allweddol o holl aelod-wladwriaethau'r Cyngor drafod heriau a chyfleoedd y maes hanfodol bwysig hwn. Cafwyd trafodaethau ar: fanteision gwybyddol dysgu ieithoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar; datblygu a chynnal gweithlu addas; ac arferion gorau wrth gefnogi rhieni plant sy'n dysgu ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Roedd y gweminar yn rhagarweiniad i drafodaeth weinidogol gadarnhaol ar lefel y Cyngor ym mis Tachwedd ac yna ar lefel Uwch-gynhadledd rai dyddiau'n ddiweddarach yn Sain Ffagan. Cydnabuwyd pwysigrwydd cyflwyno ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd yn ystod y blynyddoedd cynnar a chytunwyd y byddai rhannu arferion da yn y maes hwn yn parhau. Roedd hi'n braf hefyd clywed holl ieithoedd y Cyngor yn cael eu defnyddio yn ystod yr uwch-gynhadledd, a hynny am y tro cyntaf erioed.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hefyd, parhaodd y Grŵp i gyhoeddi cyfres o adnoddau defnyddiol ar ei gwefan, gan eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Y nod oedd tynnu sylw eang at yr ieithoedd ac ennyn diddordeb y cyhoedd ynddynt. Mae'r adnoddau a grëwyd ac a ddiweddarwyd gan y Grŵp yn cynnwys:

- Geirfaoedd thematig yn holl ieithoedd y Cyngor.
- Ffeithlun i grynhoi sefyllfa'r holl ieithoedd.
- Cyfres o adnoddau i gefnogi pobl i ddysgu'r ieithoedd.
- Rhestr o ganeuon yn yr holl ieithoedd ar Spotify.

**Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru i waith UNESCO wrth iddynt baratoi ar gyfer Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu arferion da gydag eraill ledled y byd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn "genedl sy'n gyfrifol ar lefel byd eang". Mae'r gwaith hwn yn cynnwys parhau i feithrin a chryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliad allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

**Digwyddiadau rhyngwladol**

Ers dechrau'r pandemig, mae'r cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ar lefel ryngwladol wedi bod yn fwy cyfyngedig na'r blynyddoedd blaenorol, nid yn unig oherwydd y cyfyngiadau byd-eang, ond hefyd oherwydd gorfod adleoli adnoddau staffio o fewn yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, yng Nghymru a thramor. Fodd bynnag, mae gwaith wedi gallu ailgychwyn a dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn dan sylw:

Yr Almaen
2021 oedd blwyddyn thema "Cymru yn yr Almaen" gydag ystod eang o weithgareddau'n cael eu cynnal, er enghraifft:

- Prosiect ar-lein rhwng Llenyddiaeth Cymru / Y Cyngor Prydeinig / Literaturhaus Stuttgart a oedd yn cynnwys y canlynol fel prif themâu: yr iaith Gymraeg, hunaniaeth, tirwedd, rhyw, ethnigrwydd.
- Y drydedd ffilm a gomisiynwyd ar gyfer Cymru yn yr Almaen 2021 drwy Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru (Plethu-Weave) wedi'i rhyddhau a'i hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol ym mis Hydref 2021. Roedd y gerdd a berfformiwyd yn y ffilm yn y Gymraeg.

Unol Daleithiau America

- Cefnogwyd taith Côr yr Urdd i Alabama a Georgia, lle buont yn canu mewn perfformiadau niferus i gynulleidfaoedd lleol a pherfformio yn y Gymraeg ar y cyd â Chôr Gospel Prifysgol Alabama yn Birmingham (UAB).
- Noddodd Llywodraeth Cymru Ŵyl Cymru Gogledd America – dathliad o bopeth Cymreig gan gynnwys perfformiadau a chystadlaethau yn yr iaith Gymraeg.

Canada

- Cynnal dirprwyaeth o Raglen Interniaeth Wleidyddol Seneddol Canada ar eu hymweliad â Chymru ym mis Mawrth 2022, lle bu ffocws mawr ar ddull gweithredu Cymru o ran dwyieithrwydd a dysgu y gallem ei rannu â Chanada.
- Hwyluso panel ar ‘Ieithoedd brodorol mewn cerddoriaeth a defnyddio iaith i gryfhau sain a geiriau caneuon’ yn BreakOut West.

Japan

- Mae trydariad wythnosol yn hyrwyddo geiriau Cymraeg wedi cael ei gyflwyno ac y mae bob amser ymysg y trydariadau mwyaf poblogaidd. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu’n gyson ers Cwpan Rygbi’r Byd ac ar hyn o bryd, ceir dros 9,000.

Yr Emiraethau Arabaidd Unedig

- Cynhaliodd ein swyddfa yn Dubai ddigwyddiad ar gyfer Cymry alltud yn yr Emiradau Arabaidd Unedig i ddathlu Dydd Miwsig Cymru (DMC) a Dubai Expo.

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Ers 1922 yn ddi-dor, mae’r broses flynyddol ar Fai 18 o anfon neges ar ran pobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Cydraddoldeb i ferched oedd thema Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn 2021 ac fe’i lluniwyd gan fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe.

Cyfieithwyd y neges i dros 65 o ieithoedd ac fe’i rhannwyd ar gyfryngau cymdeithasol mewn 59 o wledydd ledled y Byd. Cyrhaeddodd 5.2 miliwn o bobl – y neges fwyaf llwyddiannus erioed.

## Digwyddiadau mawr

Effeithiodd y pandemig yn sylweddol unwaith eto ar ein gwaith digwyddiadau mawr yn ystod 2021-22 gyda’r amrywiol gyfyngiadau ar ymgynnull a digwyddiadau cyhoeddus yn parhau tan yn hwyr yn 2021. Yn sgil ailgyflwyno cyfyngiadau Rhybudd Lefel 2 ym mis Rhagfyr, mewn ymateb i’r sefyllfa iechyd y cyhoedd ar y pryd, cyflwynwyd trydydd cylch i’r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Darparwyd cyfanswm o £24m i dros 200 o ddigwyddiadau a chyflenwyr technegol drwy'r Gronfa. Mae'r digwyddiadau a gefnogwyd yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd a Tafwyl. Mae pawb a dderbyniodd y cyllid hwn hefyd wedi

cytuno i egwyddorion 'Contract Diwylliannol' sy'n cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo a diogelu ein hiaith, ein treftadaeth a'n diwylliant bywiog.

**Twristiaeth a marchnata**

Ein nod yw arwain drwy esiampl, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a phwysleisio manteision bod yn wlad ddwyieithog. Gwnawn hyn drwy ddylanwadu ar ein holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw ar draws y byd.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog a gweledol o'n hymgyrchoedd i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang, ac mae'r neges am ddwyieithrwydd Cymru hefyd yn cael ei rhannu ar blatfformau perthnasol. Mae hyn i'w weld yn glir ar wefan Wales.com – prif borth digidol Cymru – sy'n cynnwys erthyglau penodol ar y Gymraeg a Chymru ddwyieithog. Mae'r neges hon hefyd yn frith drwy lawer o'r cynnwys yr ydym yn ei ddefnyddio ar draws ein hamryw wefannau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio'n sylweddol ar ein gwefan a sianelau cyfrwng Cymraeg, Croeso Cymru, gan gyhoeddi erthyglau a phecynnau cynnwys unigryw o ansawdd yn Gymraeg.

Rydym hefyd yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg mewn unrhyw ymgyrchoedd rhyngwladol yr ydym yn eu rhedeg gyda phartneriaid, gan gynnwys ymgyrchoedd gyda BBC.com a KLM yn ystod 2021-22, sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd ledled y byd.

Wrth i ni gynllunio ymgyrchoedd a chomisiynu cynnwys newydd i hyrwyddo Cymru, bydd dathlu'r Gymraeg, sicrhau pwyslais ar dwristiaeth gymunedol a phwysleisio iaith a diwylliant unigryw Cymru yn parhau'n rhan annatod o'r strategaeth.

## 12. Technoleg ddigidol

Mae llawer o ddatblygu wedi bod ar dechnoleg i'n cefnogi ni i ddefnyddio'n hiaith dros y blynyddoedd diweddar, a llawer o'r datblygiadau'n deillio o'n *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg.* Athroniaeth y cynllun hwnnw yw lle bo Llywodraeth Cymru'n talu am gydrannau technoleg iaith, byddwn ni'n eu rhyddhau'n rhad ac am ddim o dan drwydded agored addas. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at nifer o eitemau newydd i helpu gyda'n gwaith o gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

O ran Technoleg Llais, gyda'n cymorth grant, bu Prifysgol Bangor wrthi'n gwella eu Trawsgrifiwr. Dyma adnodd sy'n galluogi creu isdeitlau awtomatig i fideos Cymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyhoeddi diweddariadau i'r modelau iaith arddweud ac acwstig a gwell lleisiau testun-i-leferydd Cymraeg.

Cydweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn cael mynediad at a'r hawl i rannu eu cofau cyfieithu oedd y flaenoriaeth ym maes awtomeiddio cyfieithu eleni. Bwriad annog cyrff i rannu eu cofau cyfieithu yw nad yw'r un frawddeg yn gorfod cael ei chyfieithu dro ar ôl tro. Iechyd a Gofal

oedd ein blaenoriaeth eleni, gyda'r cofau o'r parth hwn yn cael eu defnyddio i hyfforddi peiriant cyfieithu awtomatig arbenigol newydd i'r sector.

Gwnaeth Prifysgol Bangor hefyd welliannau i Macsen, peiriant adnabod lleferydd Cymraeg, gyda diweddariad i'r meddalwedd er mwyn datblygu'r maes deallusrwydd artiffisial ymhellach yn y Gymraeg.

Er mwyn cryfhau defnydd y Gymraeg mewn technoleg, bu Prifysgol Bangor yn adweithiol iawn drwy ddatblygu a rhyddhau yr adnoddau canlynol:

- Parsiwr dibyniaethau (i ddangos y gydberthynas semanteg rhwng geiriau mewn brawddegau Cymraeg).
- Dad-adnabyddwr (de-identifier neu anonomeiddiwr) sy'n gallu cuddio endidau (geiriau a thermau) sensitif personol sy'n ymddangos mewn testunau.
- Adnodd ieithyddol newydd i gynorthwyo gyda threigliadau.
- Ategolion gwirio sillafu Cysill am ddim ar gyfer Google Docs a Microsoft Office 365.

Cyflwynwyd hyn oll mewn Symposiwm Technoleg Iaith ym Mhrifysgol Bangor ar 28 Ionawr 2022.

Bu Prifysgol Caerdydd yn gweithio gyda Phrifysgol Caerhirfryn i greu peiriant sy'n crynhoi testun Cymraeg yn awtomatig ac fe'i rhyddhawyd fis Awst 2022. Edrychwn ymlaen at ddyddiad rhyddhau'r adnodd maes o law.

Mae Mapio Cymru, gyda chymorth y cyhoedd, wedi helpu i wella mapiau Cymraeg ac mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod wrthi'n canolbwyntio ar enwau lleoedd Cymraeg eleni fel rhan o'i gwaith gyda chymuned Wicipedia Cymraeg. Mae'r gwaith hwn yn gweld enwau lleoedd yn cael eu rhoi ar ffurf Wikidata er mwyn i erthyglau am leoedd yng Nghymru gael eu creu gyda'r lluniau priodol wrth law.

Dyma restr o'r holl adnoddau technolegol Cymraeg a dwyieithog.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi, ac wrthi'n gweithredu canllaw i gwmnïau a datblygwyr sydd eisiau gwybod sut i gynllunio gwasanaethau digidol sy'n gweithio'n ddwyieithog.

## 13. Seilwaith ieithyddol

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg er mwyn hwyluso'r daith at filiwn o siaradwyr ac i gynyddu defnydd iaith.

Adnoddau 'seilwaith ieithyddol' yw'r pethau sy'n ein helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd: geiriaduron, adnoddau terminoleg, corpora, a gwaith ymchwil a safoni.

Rydym ni'n ariannu nifer o brosiectau yn y maes yn uniongyrchol, gan gynnwys Geiriadur Prifysgol Cymru, a'r Termiadur Addysg. Mae nifer o'r prif adnoddau eraill hefyd yn derbyn arian cyhoeddus drwy wahanol asiantaethau.

Rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2021, fe gynhalion ni ymgynghoriad ar bolisi seilwaith ieithyddol drafft, gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio'r Gymraeg – yn weithleoedd, yn blant ysgol, yn athrawon, yn siaradwyr newydd neu'n siaradwyr hyderus – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod lle i droi am adnoddau neu ffynonellau ieithyddol. Yn hynny o beth, roedd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn dilyn y syniad o roi'r defnyddiwr yn gyntaf, a'i gwneud yn hawdd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy greu un gwefan iddyn nhw fynd i gael atebion.

Fe gyhoeddon ni grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 28 Medi 2021, ac ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio ar sail rhai o'r prif ganfyddiadau – mae hynny'n cynnwys cymryd camau i sefydlu uned seilwaith ieithyddol yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf.

Yn ystod 2021-22, buom yn parhau i gynnal panel i fynd i'r afael â materion orgraffyddol o dan gadeiryddiaeth Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd. Drwy gynnwys rhai o'r prif ddarparwyr adnoddau seilwaith yn y gwaith, y gobaith yw y bydd hyn yn gam tuag at sicrhau rhagor o gysondeb er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.

Rydym hefyd wedi parhau i gynnal grŵp, dan gadeiryddiaeth yr Athro Delyth Prys o Brifysgol Bangor, i safoni termau cydraddoldeb ym maes hil ac ethnigrwydd. Gwnaed hyn er mwyn ymateb i fwlch yn y ddarpariaeth dermau yn y maes.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn datblygu cynigion polisi ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

**Cyfieithu**

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw am eu gwasanaethau, rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r gymdeithas broffesiynol sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Gymdeithas wedi parhau'n ganolog i gynnal e-gymuned o gyfieithwyr, gan eirioli ar eu rhan, yn ystod cyfnod pan oedd cyfieithwyr o bob math yn mynd drwy gyfnod anodd yn sgil y pandemig. Cyfeiriwyd yr aelodau'n rheolaidd at ffynonellau gwybodaeth a chysylltiadau a allai fod yn ddefnyddiol iddynt, gan gynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol a'r cymorth busnes a oedd ar gael, yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol am y rheolau a'r rheoliadau oedd yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion yn ymwneud â COVID-19. Tynnwyd sylw hefyd at wybodaeth a fyddai o fudd i les ac iechyd aelodau

**Enwau lleoedd**

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg. Cadarnhawyd y bwriad hwn drwy gynnwys ymrwymiad i "*Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo*" yn y Cytundeb Cydweithio.

Mae 'enwau lleoedd' yn faes eang, gyda gwahanol amgylchiadau'n galw am atebion gwahanol. Fel rheol rydym yn rhannu'r maes yn dair rhan:

- Enwau dinasoedd, trefi a phentrefi
- Enwau tai ac eiddo
- Enwau daearyddol

Enwau hanesyddol yw nifer o'r enwau ym mhob un o'r tri chategori hyn, ac mae'r heriau sy'n berthnasol i bob un ychydig yn wahanol. Caiff enwau aneddiadau (h.y. enwau trefi, pentrefi a dinasoedd), er enghraifft, eu safoni gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae eu henwau fel y cyfryw yn rhai sefydledig a heb fod yn destun newid. Ar lefel gymunedol, fodd bynnag, mae yna gyfoeth o enwau ar gyfer nodweddion daearyddol, daliadau tir ac eiddo, gan gynnwys ffermydd a thai, ac mae'r rhain yn fwy cyfnewidiol nag enwau aneddiadau.

Rydym ni eisoes wedi llunio Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, sef yr unig gofnod statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn y DU. Un o'i phrif amcanion yw codi ymwybyddiaeth o'r cyfoeth o enwau hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol. Sefydlwyd y rhestr yn 2017, ac yn 2021 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu ei gwaith hyd yn hyn ac i lunio argymhellion at y dyfodol. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

Yn achos enwau tai, enwau daearyddol ac enwau hanesyddol, mae dirfawr angen rhagor o dystiolaeth er mwyn datblygu cynigion polisi cadarn – nid yn unig am nifer yr enwau sy'n newid, ond hefyd sut a ble mae hynny'n digwydd.

Bydd ymchwil am y prosesau a ddefnyddir i newid enwau'n caniatáu i ni ganfod atebion sy'n gweithio. Felly ynghyd â chamau tymor byr, byddwn yn blaenoriaethu'r ymchwil hwn fel sylfaen ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Cyfraniadau pwysig at yr wybodaeth sydd gennym oedd yr ymgynghoriad ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg drafft a oedd yn fyw rhwng 23 Tachwedd 2021 a 22 Chwefror 2022, ac a oedd yn cynnwys cynigion ar ddiogelu enwau lleoedd a thai.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal â'r adroddiad a'r argymhellion i lywio dyfodol Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yn llywio'n ffordd ymlaen yn y maes hwn.

## 14. Cynllunio ieithyddol

Mae'n huchelgais ar gyfer ein hiaith yn fawr, felly hefyd ein cynlluniau i'w cyrraedd. Mae cynllunio ieithyddol yn faes eang sy'n mynd ar draws pob maes polisi. Mae'n holistaidd ac yn cynllunio'n fwriadus er mwyn atal a gwyrdroi shifft iaith o'r iaith leiafrifol i'r iaith fwyafrifol. Mae hyn yn golygu craffu ar bolisi mewn gwahanol feysydd (ac ar sawl lefel) sy'n effeithio ar benderfyniadau ieithyddol, gyda'r nod o hybu'r iaith leiafrifol. Gan fod hyn yn waith holistaidd sy'n cyffwrdd â'n holl weithgarwch – mae'r holl ymyraethau a drafodir yn yr adroddiad hwn felly'n dod o dan ambarél cynllunio ieithyddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o strwythurau sy'n fodd i hybu'r meddylfryd holistaidd lle mae'r Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ac yn rhan o weithgarwch ar draws y maes polisi cyhoeddus.

### Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050*

Uwch swyddogion o bob cwr o'r Llywodraeth yw aelodau Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod bob tymor i drafod materion megis prif-ffrydio'r strategaeth ar draws gwaith y Llywodraeth, ystyried risgiau, arfer da a materion sy'n codi a allai effeithio ar *Cymraeg 2050*.

### Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y tymor i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â *Cymraeg 2050.* Bu'n cynghori'r Gweinidog ar amrywiol faterion sy'n effeithio ar faes polisi y Gymraeg, er enghraifft y maes ail gartrefi, addysg ôl-16 a defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

### Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Cafodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei lansio yn Eisteddfod Ceredigion ym mis Awst 2022. Caiff ei gadeirio gan Dr Simon Brooks ac ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd y Comisiwn yn craffu ar bolisi cyhoeddus mewn meysydd fel yr economi, tai, addysg a datblygu cymunedol yng nghadarnleoedd y Gymraeg er mwyn gwneud argymhellion polisi holistaidd a fydd yn cryfhau cymunedau Cymraeg.

Mae sefydlu'r Comisiwn yn rhan o'n hymateb i heriau cymdeithasol dwys sydd wedi codi yn sgil COVID-19.

Byddwn yn manylu mwy ar waith y Comisiwn yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**

Nod Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg yw tynnu ynghyd amrywiol bartneriaid sy'n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol i rwydweithio, rhannu gwybodaeth, cynnal trafodaethau a rhannu syniadau. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd trafodaethau ar amrywiol feysydd polisi'r Llywodraeth gan gynnwys y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

Cyhoeddwyd dau adroddiad ymchwil sy'n ychwanegu at y sail dystiolaeth ynghylch addysg drochi hwyr yn ystod y flwyddyn adrodd. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddwyd adolygiad cwmpasu cyflym o'r dystiolaeth sydd yn bodoli ar drochi hwyr a darpariaeth ieithyddol ddwys. Mae'r astudiaeth a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 yn archwilio sut mae darpariaeth addysg drochi hwyr yn cael ei chyflwyno mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ac yn trafod rhai o'r cyfleoedd a'r heriau i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddynt gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth.

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd cytundeb i gynnal adolygiad o'r Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg.

Drwy gydol y flwyddyn, datblygwyd ymhellach y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws gweithgaredd ymchwil y Llywodraeth.

**Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes**

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, ac mae detholiad o'r canfyddiadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn gan gynnwys data ar y Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg a gyhoeddwyd mis Chwefror 2022. Bydd bwletinau i ddilyn ar y Gymraeg yn y gweithle, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg â gwasanaethau. Byddwn yn cyfuno data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol.

Rydym hefyd wedi bod yn cyhoeddi amcangyfrifon o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ein gwefan bob chwarter. Mae'n bwysig nodi bod y ffordd y caiff yr arolwg ei weinyddu wedi gorfod newid yn sgil y pandemig, felly mae'n rhaid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r data ers mis Mawrth 2020.

# Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r holl waith a wnaed i fwrw ymlaen gyda strategaeth *Cymraeg 2050*, gan y Llywodraeth a'i hamrywiol bartneriaid, yn ystod 2021-22. Mae oedi a chraffu ar y gwaith hwn ar ddiwedd blwyddyn yn hollbwysig wrth i ni werthuso ein cynnydd yn erbyn ein targedau i ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg a chyrraedd y miliwn erbyn 2050.

Yn fuan, bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yng nghyd-destun y Gymraeg yn cael eu rhyddhau, ac rydym ni'n barod i'w dadansoddi'n fanwl er mwyn adolygu'n cynlluniau a'r taflwybr tuag at y miliwn, yn ôl y galw.

Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd, cynnig help llaw pan ddaw heriau a chyfleoedd, dysgu oddi wrth ein gilydd a dathlu llwyddiannau'n gilydd – mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Mae gan bob un ohonom ein llais a'n cyfraniad. A rhaid cofio bod gan bob un ohonom ni'r cyfrifoldeb a'r gallu – yn unigolion ac yn sefydliadau – i weithio gyda'n gilydd i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg.